

Cynllun Creu Lleoedd Porthmadog

Cyngor Gwynedd

Chwefror 2024



1. Cyflwyniad

- Pwrpas, y maes astudio a chyd-destun
- Datblygiad cynnaliadwy a'r iaith Gymraeg
- Creu lleoedd a dulliau
- Adolygiad o'r polisiau a strategaethau

2. Llinell Sylfaen

- Llinell Sylfaen economaidd
- Llinell Sylfaen economaidd-gymdeithasol
- Gwaelodlin y farchnad

3. Ymgysylltiad a Gweledigaeth

- Ymgysylltu a rhanddeiliaid
- Dadansoddiad SWOT
- Datganiad o'r weledigaeth a mesurau llwyddiant

4. Dadansoddi'r Opsiynau

- Hen Coliseum
- Harbwr Porthmadog
- Maes Parcio DWP
- Parc y Dref
- Cob Crwn

5. Y Cynllun Gweithredu

6. Llywodraethu a Dosbarthiad

- Modelau llywodraethu ac astudiaethau achos
- Argymhellion



1

Cyflwyniad

Pwrpas

Mae Cyngor Gwynedd wedi comisiynu Savills i sefydlu'r blaenoriaethau strategol a chyflwyno'r weledigaeth derfynol i arwain adfywiad canol tref Porthmadog.

Maes Astudio

Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n bennaf ar ganol y dref, sy'n estyn o'r Harbwr i'r gorllewin tuag at y Stryd Fawr i'r Hen Coliseum, wrth gydnabod pwysigrwydd, ac yn ymgysylltu'r dref a'r ardal ehangach.


Cyd-destun

Mae Porthmadog yn dref harbwr yng Ngwynedd, wedi'i leoli gerllaw Parc Cenedlaethol Eryri, a sy'n rhan o safle Treftadaeth y Byd, Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Sefydlwyd y dref ar aber yr afon Glaslyn yn gynnar yn yr 1800au, a'i hadeiladwyd o gwmpas sefydliad y morglawdd. Daeth y dref yn rhan hynod arwyddocaol yn niwydiant llechi Gogledd Cymru erbyn canol yr 19eg Ganrif gyda Harbwr Porthmadog yn allforio llechi o chwareli lleol i wledydd helaeth ar draws y byd.

Er y gostyngiad yn nifer y boblogaeth ers 2011, mae Porthmadog yn un o ganolfannau trefol mwyaf Gwynedd gyda phoblogaeth o 2,600 o bobl. Mae'r dref yn ganolbwynt cyflogaeth bwysig sy'n cynnwys gwasanaethau i boblogaeth y dref ac i'r ardal wledig ehangach i'r dwyrain ac i'r de.

Mae'r dref hefyd yn ganolbwynt mawr ar gyfer twristiaeth yng Ngogledd Cymru, o ganlyniad i dirwedd naturiol eithriadol yr ardal a'i hagosrwydd at atyniadau ymwelwyr fel Portmeirion a Rheilffordd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru. Mae gan Borthmadog dros 13,000 o welyau lletygarwch yn yr ardal, gyda'r mwyafrif ohonynt mewn meysydd carafanau i'r gorllewin o'r dref o amgylch pentref Morfa Bychan.

Er gwaethaf llwyddiant Porthmadog fel cyrchfan i ymwelwyr, mae'r dref wedi wynebu heriau economaidd ac adfywio difrifol, ac o ganlyniad i hyn, nid yw wedi gwireddu ei photensial yn llawn. Mae tai, cyflogaeth, manwerthu a'r parth cyhoeddus wedi'u nodi'n gyson fel materion sylweddol mewn ymgynghoriadau cyhoeddus (fel Ardal Ni a Helo Port) ac wedi'u nodi fel blaenoriaethau adfywio mewn cynlluniau datblygu blaenorol (e.e. Cynlluniau Adfywio Ardal 2007 a Thref 2014 Porthmadog).



Ardal adeiledig Porthmadog (Llywodraeth Cymru)



Canol tref diffiniedig (CDLL ar y Cyd)

Datblygiad Cynaliadwy a'r Iaith Gymraeg

Cymraeg yw'r iaith gymunedol ym Mhorthmadog, ac fe'i defnyddir gan fwyafrif o drigolion y dref yn eu bywydau beunyddiol. Mae'r data o Gyfrifiad 2021 yn dangos bod 77% o drigolion Porthmadog yn rhugl yn y Gymraeg, gan roi Porthmadog yn yr 1% uchaf ran y niferoedd o siaradwyr Cymraeg mewn trefi bach.

O ganlyniad i hyn, mae cynnal a chryfhau'r Gymraeg fel iaith fyw, gymunedol, wedi bod yn ystyriaeth ganolog wrth gynhyrchu'r cynllun adfywio. Mae'r bwriad i gynnal a chryfhau'r Gymraeg ym Mhorthmadog yn ymfyn darpariaeth o swyddi ansawdd uchel, tai fforddiadwy, ac ansawdd bywyd da i gadw'r trigolion presennol yn lleol a denu cyn-drigolion yn ôl i'r ardal i fyw.


Mae'r prosiectau diweddar ar draws yr ardal leol, 'Arfor I' a 'Llwyddo'n Lleol', wedi harneisio datblygiad economaidd er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y dref. Yn ogystal â hyn, mae'r cynllun Arfor II yn cydnabod y cyfleoedd economaidd i bobl ifanc a theuluoedd o fewn y dref, a'i rôl yn cryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg yn yr ardal.

Er bod cyfleoedd economaidd yn hollbwysig, mae Dr Elin Royles (o Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymraeg, Prifysgol Aberystwyth) yn canfod fod amodau cymdeithasol (h.y, ansawdd byw trigolion yr ardal) hefyd yn hynod o bwysig i gadw, ac i ddenu trigolion yn ôl i'r ardal. O ganlyniad i hyn, ni ddylai ymyriadau yng nghanol y dref ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ganlyniadau economaidd, a dylent hefyd geisio gwella ansawdd bywyd trigolion drwy gydol y flwyddyn.

Er enghraifft, wrth ddatblygu Canolfan Iechyd newydd i wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd lleol a gwella'r rhwydwaith teithio llesol lleol i greu mwy o gyfleoedd i deithio ar droed ac ar feic.

Felly, mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar ymyriadau a luniwyd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i threftadaeth leol unigryw, yn uniongyrchol, ochr yn ochr ag ystod ehangach o ymyriadau all hyrwyddo'r iaith yn anuniongyrchol – megis tai fforddiadwy, cyfleoedd cyflogaeth o safon, a gwelliannau i'r parth cyhoeddus.

Map o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Leol (ACEHI) sydd gyda dros 75% o siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021



- 1) Gwerthusiad, Casgliadau ac Argymhellion Rhaglen Arfor, Hydref 2021, Wavehill Research
- 2) Prosiectws Arfor II 2022 – 2025
- 3) Sut i gefnogi'r economi a chryfhau'r Gymraeg? Hydref 2023, Arsyllfa Observatory

Creu lleoedd


Mae Creu Lleoedd yn ddull o gyfansoddi cynlluniau trefol, sy'n cynnwys barn a syniadau'r gymuned yn y broses o gynllunio, dylunio trefol a rheoli lleoedd. Mae creu lleoedd yn rhan greiddiol o ddull Llywodraeth Cymru o gefnogi ardaloedd trefol, a dywedodd Llywodraeth Cymru yn y Datganiad Sefyllfa Ganol Trefi, y bydd cyllid adfywio'n cael ei dargedu at drefi sydd â chynllun mewn lle. Mae'r dull hefyd yn cael ei gydnabod fel ffordd bwysig o gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol a osodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae creu lleoedd yn cael ei ddiffinio gan Lywodraeth Cymru fel "dull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiadau a gofodau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiad o ansawdd uchel a manau cyhoeddus sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn yr ystyr ehangaf". Er mwyn cyflawni'r canlyniadau lleol, cadarnhaol hyn, mae Comisiwn Dylunio Cymru (CDC) yn eiriol dros "weithio ar y cyd ar draws sectorau a disgyblaethau i roi ystyriaeth gynhwysfawr i ddatblygiad lleoedd nodedig a bywiog yn y dyfodol". Golyga hyn eu bod nhw'n cyflawni amrywiaeth o themâu allweddol ar yr un pryd - mae'r themâu wedi'u nodi gan 'Siarter Lleoedd Cymru' fel pobl a chymuned, lleoliad, parth cyhoeddus, hunaniaeth, symudiad, a chymysgedd o ddefnyddiau.

Mae'r broses o greu lleoedd da yn golygu'r angen i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o'r gweithgareddau sy'n cymrud rhan yn yr ardal, ffurfiant ac ystyr lle, ac yna adeiladu ar y cydrannau hyn i gyflwyno datblygiad newydd, gwneud gwelliannau i lleoedd presennol neu ymyriadau megis digwyddiadau sy'n helpu i greu gweithgaredd mewn gofod. Mae CDC yn diffinio'r tair cydran fel a ganlyn:

- *'Gweithgaredd – Y gweithgareddau sy'n digwydd yn y lle a gefnogir gan ddefnyddiau tir, symudiadau cerddwyr a beicwyr, bywyd cymdeithasol o fewn y parth cyhoeddus a'r digwyddiadau o fewn y dref.*
- *Ffurf – Y nodweddion ffisegol sy'n rhan o'r lle gan gynnwys y treflun, y ffurfiant adeiledig, y dirwedd, topograffeg, ecoleg, microhinsawdd a'r tir cyhoeddus.*
- *Ystyr – Nodweddion sy'n unigryw i'r lle, gan gynnwys y cyd-destun, hunaniaeth a'r ymdeimlad unigryw o le, y nodweddion adeiledig a naturiol arwyddocaol, cysylltiadau diwylliannol, profiadau synhwysaidd, diogelwch a chynhwysiant a'r ymdeimlad o berthyn.'*

Y broses o greu lleoedd (Prosiect argyfer Mannau Cyhoeddus, 2022)



Rolau rhanddeiliaid

- Cynghori
- Adnoddau ychwanegol
- Gweithredu a chynnal

Rolau arbenigwyr

- Hysbysu
- Hwyluso
- Dylunio

1) Canol trefi: datganiad sefyllfa (2023)
2) Polisi Cynllunio Cymru 11eg argraffiad (2021)
3) Canllaw a Siarter Creu Lleoedd Cymru (2020)

Ein dulliau

Gweler y dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r Cynllun yn y ffigur gyferbyn. Mae'r egwyddorion creu lleoedd a'r canllawiau a osodwyd gan CDC a Llywodraeth Cymru wedi arwain y gwaith o lunio'r Cynllun. Mae'r tîm amlddisgybledig wedi datblygu'r Cynllun gydag ystod eang o arbenigeddau, gan gynnwys y broses o gynllunio, dylunio trefol, a datblygu'r cynllun economaidd, er mwyn creu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r dref, ac ymagwedd fanwl ac ymarferol sy'n seiliedig ar le at newid, sydd wedi'i gwreiddio yn y nodau a blaenoriaethau'r gymuned.

Roedd y pedwar cam cyntaf yn natblygiad y Cynllun yn canolbwyntio ar ffurfio dealltwriaeth fanwl o Borthmadog fel lle – gan ffocysu ar y gweithgareddau, nodweddion adeiledig a naturiol, a'r cysylltiadau treftadaeth a diwylliannol sy'n diffinio canol dref Porthmadog.

Mae barn y rhanddeiliaid lleol a'r gymuned ehangach yn rhan annatod o greu lleoedd. Roedd camau 1, 3 a 4 yn canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth o safbwyntiau rhanddeiliaid a thrigolion, drwy ddadansoddi canlyniadau'r ymgynghoriadau cyhoeddus a chyfarfodydd â rhanddeiliaid a sefydliadau allweddol. Roedd Cam 2 yn cynnwys ymchwil helaeth a dadansoddi data i adeiladu dealltwriaeth fanwl o nodweddion cymdeithasol ac economaidd y dref, gan gynnwys heriau 'cudd' posibl y mae angen eu hystyried yn y Cynllun.

Mae'r ddau gam olaf yn canolbwyntio ar integreiddio'r canfyddiadau o'r camau blaenorol i osod gweledigaeth ddiffiniol ar gyfer Porthmadog a Chynllun Gweithredu cysylltiedig i osod llwybr clir ar gyfer gwreiddio'r weledigaeth hon. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys cyfres glir o brosiectau a chamau gweithredu, wedi'u categorio yn ôl amserlen a chost, yn ogystal ag amlinellid o'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen i gyflawni'r Cynllun.

Dull a ddilynwyd i gynhyrchu'r Cynllun Creu Lleoedd

1 – Cyfarfod Dechreuol

- Cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd a Chyngor Tref Porthmadog

2 – Y Waelodlin Economaidd-Gymdeithasol

- Adolygu dogfennau polisi a strategaeth ar gyfer Porthmadog, Gwynedd a Gogledd Cymru
- Sefydlu'r waelodlin economaidd ac economaidd-gymdeithasol i'r dref

3 – Ymeliad a'r Safle

- Dadansoddiad o gyfyngiadau a chyfleoedd gofodol y safleoedd allweddol.
- Trafodaethau a rhanddeiliaid a thrigolion lleol rhanbarthol

4 – Ymgysylltu a Rhanddeiliaid

- Dadansoddi canlyniadau a thueddiadau allweddol o ymgynghoriadau cyhoeddus diweddar (Ardal Ni 2035 a Helo Port)
- Cynnal digwyddiadau i greu gweledigaeth gyda rhanddeiliaid
- Cyfarfodydd unigol gyda rhanddeiliaid

5 - Gweledigaeth

- Sefydlu gweledigaeth bendant ar gyfer Porthmadog, gan integreiddio adborth a blaenoriaethau trigolion a rhanddeiliaid
- Diffinio'r mesurau llwyddiant i fonitro cynnydd y cynllun

6 – Dadansoddiad Opsiynau a Chynllun Gweithredu

- Dadansoddiad o opsiynau yn diffinio'r safleoedd allweddol a chyfleoedd penodol i safleoedd
- Datblygu cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r Weledigaeth
- Amlinellu trefniadau'r llywodraeth sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun gweithredu

Adolygiad o'r polisiau a strategaethau

Mae'r adran hon yn adolygu'r polisiau a'r dogfennau strategaeth berthnasol sy'n ymdrin ag adfywiad, defnydd tir a datblygiad economaidd ym Mhorthmadog, Gwynedd a Gogledd Cymru. Mae'r dogfennau wedi'u crynhoi, gyda'r nodweddion perthnasol wedi'u uwcholeuo, a'r canfyddiadau allweddol wedi'i gyflwyno.

Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040

Cymru'r Dyfodol yw'r cynllun datblygu cenedlaethol, a'i fwriad yw llywio penderfyniadau cynllunio strategol ar lefel genedlaethol. Mae Porthmadog wedi'i leoli yng ngorllewin rhanbarth Gogledd Cymru, i'r de o'r Ardal Twf Rhanbarthol Trefi Arfordirol Gogledd Cymru a Thrawsfynydd, sydd wedi'i nodi fel safle posibl ar gyfer Adweithydd Modiwlaid Bach. Mae metro Gogledd Cymru, cynllun i wella'r rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus a theithio llesol, wedi'i leoli 30km i'r gogledd o'r dref. Mae'n nodi y dylai datblygiad o fewn y dref gefnogi anghenion a dyheadau'r boblogaeth leol, gan ategu, yn hytrach na chystadlu ag ymdrechion i dyfu dinasoedd a threfi mewn Ardaloedd Twf.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026 (2017)

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn sail ar gyfer penderfyniadau cynllunio a datblygu yn Ynys Môn a Gwynedd (y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri). Mae Porthmadog wedi'i nodi fel canolfan allweddol yn y CDLI gyda chydabyddiaeth o'i bwysigrwydd i drigolion fel safle ar gyfer cyflogaeth, manwerthu a gwasanaethau, a'i rôl fel prif gyrchfan i ymwelwyr. Mae'r dref yn ail ar yr hierarchaeth aneddiadau a manwerthu, ac wedi'i chategoreiddio fel canolfan gwasanaeth trefol a chanolfan adwerthu drefol, o dan ranbarth Bangor.


Mae'r CDLI hefyd yn amlygu cyfyngiadau datblygu sylweddol sy'n lleihau'r nifer o safleoedd sy'n hyfyw ar gyfer datblygiadau preswyl neu gyflogaeth ym Mhorthmadog. Mae'r rhan fwyaf o'r tir o amgylch y dref yn barth llifogydd dynodedig (parth C2 - heb isadeiledd amddiffynnol sylweddol), mae ardaloedd tirwedd arbennig (Aber Glaslyn, Dywryd a Phorthmadog a Bae Tremadog) yn amgylchynu'r dref i'r dwyrain a'r gorllewin, gyda gorllewin y dref wedi'i ffinio gan allt serth. O ganlyniad i hyn, mae yna brinder o safleoedd datblygu addas, ac nid oes unrhyw safleoedd a ddynodwyd ar gyfer preswyl neu gyflogaeth yn y CDLI ym Mhorthmadog.

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Ynys Môn a Gwynedd yn paratoui eu Cynlluniau Datblygu Lleol ar wahan. Rhagwelir y bydd CDLI Gwynedd yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor yn 2027.

Mae'n annhebygol o gynnwys dyraniadau preswyl neu gyflogaeth sylweddol ym Mhorthmadog oherwydd yr un cyfyngiadau datblygu sy'n wynebu'r dref ar hyn o bryd.

Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyntaf yng Nghymru i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, sy'n diddymu'r hawl i newid defnydd prif gartrefi yn ail gartrefi, ail gartrefi i osodiadau gwyliau tymor byr ac i'r gwrthwyneb heb ganiatâd cynllunio. Os bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn pleidleisio o blaid cyflwyno'r Cyfarwyddyd, bydd yn cael ei weithredu yn 2024.

Diagram Strategol Rhanbarthol Gogledd Cymru (Cymru'r Dyfodol)



Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru 2018 – 2035 (2018)

Mae'r Strategaeth yn ddogfen ganllaw a ddyluniwyd i lunio adfywio yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â mentrau eraill i ysgogi twf economaidd yn y rhanbarth, megis Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru (2016) a Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru (2021). Mae'r Strategaeth yn sefydlu fframwaith gofodol a thematig ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiad, gan nodi'r amcanion adfywio rhanbarthol a ganlyn:

- Lleihau anghydraddoldebau
- Cryfhau'r economi ymwelwyr
- Gwarchod yr economi wledig
- Moderneiddio canol trefi
- Gwella'r cynnig tai


Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru (2016)

Datblygodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru weledigaeth i Ogledd Cymru, sydd yn bwriadu creu: "Rhanbarth hyderus, cydlynol gyda thwf economaidd cynaliadwy, gan fanteisio ar lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau pwerus Gogledd Lloegr ac Iwerddon."

Mae'r Weledigaeth wedi'i seilio ar dair egwyddor allweddol:

- Clyfar – gyda ffocws ar arloesi a sectorau economaidd gwerthfawr i hybu perfformiad economaidd.
- Gwydn – gyda ffocws ar gadw pobl ifanc, cynyddu lefelau cyflogaeth a sgiliau i gyflawni twf cynhwysol.
- Yn gysylltiedig – gyda ffocws ar wella seilwaith trafnidiaeth a digidol i wella cysylltedd strategol i ac o fewn y rhanbarth.

Map o Borthmadog (CDLI)



Mae'r weledigaeth, wedi'i ddatblygu gan 'Ambition North Wales' a'i bartneriaid, wedi llunio'r 'North Wales Growth Deal', gafodd ei lofnodi yn 2020. Mae Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth y DU yn buddsoddi £240 miliwn ar y cyd, tuag at y Cytundeb Cynnydd, dros gyfnod o 15 mlynedd. Pwrpas y cytundeb ydy i adeiladu economi sydd yn ddirgrydol, yn gynaliadwy ac yn hydwyth yng Ngogledd Cymru, gan adeiladu ar gryfderau i hybu cynhyrchaeth tra'n mynd i'r afael a sialensiau hir dymor a'r rhwystrau er mwyn darparu twf cynhwysol.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi targedu tri sector twf uchel i hybu cynhyrchiant yn y rhanbarth: ynni carbon isel, gweithgynhyrchu gwerth uchel, a bwyd-amaeth a thwristiaeth. Mae methiant y farchnad tir ac eiddo masnachol a seilwaith digidol yn cael eu nodi fel rhwystrau allweddol i dwf ac maent hefyd yn dargedau ar gyfer buddsoddiadau.

Fframwaith Rhanbarthol Gogledd Cymru (2021)

Mae Fframwaith Rhanbarthol Gogledd Cymru (FfRhGC), wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru, yn darparu fframwaith sy'n nodi sut bydd y sector gyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cyflawni eu blaenoriaethau a'u hamcanion. Mae'r Fframwaith yn cysylltu'n uniongyrchol â strwythur y Cynllun Twf gyda'r nod o gyflawni blaenoriaethau sy'n hybu cynhyrchiant, a'n cyflymu ffyniant economaidd a chynhwysol mewn modd cynaliadwy. Diffinnir y tair thema graidd ar gyfer y rhanbarth yn y fframwaith: lles cymdeithasol a chymunedol, economi carbon isel, a'r economi brofiad.


Mae'r fframwaith yn cydnabod cryfderau'r rhanbarth yn y sectorau ynni carbon isel, twristiaeth, a bwyd a diod, ond hefyd yn tynnu sylw at yr ardaloedd o amddifadedd, cysylltedd gwael ac amseroedd cymudo hirach, gyda thrigolion Gogledd Cymru yn profi amseroedd cymudo hirach o gymharu â gweddill Cymru.

Yn seiliedig ar ddadansoddiad o faterion a chyfleoedd allweddol yn y rhanbarth ac adborth rhanddeiliaid, nodwyd deg blaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth:

- Sgiliau a Gweithlu
- Buddsoddi mewn magnetau, canolbwyntiau, cadwyni cyflenwi, ymchwil a datblygu, arloesi ac Entrepreneuriaeth

- Cefnogaeth gytbwys i fuddsoddwyr cynhenid a mewnfuddsoddwyr laith, diwylliant, lle a threftadaeth
- Economi Sylfaenol a sylfaen
- Micro/BBaCh bywiog
- Grymuso cymunedau er budd cenedlaethau'r dyfodol
- Cysylltedd (trafnidiaeth a digidol)
- Trosoledd buddion y sector cyhoeddus
- Ynni carbon isel
- Diwydiant Bwyd a Diod

Safle Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru o fewn polisi a chyllid rhanbarthol



Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 (2023)

Mae'r cynllun strategol, a gynhyrchwyd gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn gosod gweledigaeth a thair Egwyddor Economi Ymwelwyr Cynaliadwy (a ddangosir yn y ffigur isod) ar gyfer twristiaeth yn y rhanbarth. Mae cynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn ganolog i'r Cynllun Strategol sy'n canolbwyntio ar ddathlu a gwarchod diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd naturiol y rhanbarth.

Mae trefniadau cyflawni yn ystyriaeth allweddol yn y Cynllun Strategol – yn 2021 llofnododd Cyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) i hwyluso datblygiad y Cynllun Strategol. Mae'r Cynllun yn nodi bod cydweithio yn allweddol i reoli twristiaeth yn y rhanbarth ac mae Partneriaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy wedi'i ffurfio i gyflawni argymhellion y Cynllun. Mae gan y Bartneriaeth gynrychiolaeth o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn ogystal â grwpiau cymunedol lleol.

Cynllun Rheoli Eiddo Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru (2020)

Mae'r Cynllun Rheoli yn amlinellu dull Cyngor Gwynedd, a'i bartneriaid, i reoli Tirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru, gan ddarparu fframwaith ar gyfer defnyddio statws Safle Treftadaeth y Byd I warchod, hyrwyddo a gwella'r rhanbarth. Dynodiad STB yw gydnabyddiaeth fyd-eang uchaf o werth treftadaeth.

Mae Harbwr Porthmadog a'r Cob yn rhan o ddynodiad Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Mae llywodraethu STB yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth rhwng grwpiau sector cyhoeddus a phreifat ar bob lefel. Mae'r Cynllun Rheoli yn canolbwyntio ar gynnal cyfanrwydd a dilysrwydd y safle ac mae'n hyrwyddo aildefnyddio asedau hanesyddol mewn modd addasadol. Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn cadarnhau o fewn y Cynllun Rheolaeth y bydd treftadaeth lechi yn cael ei integreiddio i'w gynllun adfywio economaidd a chydabyddir hefyd yn cyfle i STB gefnogi adfywio lleol.

Mae UNESCO yn datgan "mai anaml y dynodiad ei hun sy'n cyflawni'r effeithiau, ond yn enwedig gweithredoedd a buddsoddiadau'r rhanddeiliaid lleol." 1 Fel y cyfryw, y cyfle allweddol y mae dynodiad STB yn ei gyflwyno ym Mhorthmadog yw fel catalydd ar gyfer buddsoddi a gweithredu, gyda'r Harbwr yn ganolbwynt clir.

- 1) Effeithiau economaidd-gymdeithasol Rhestru Treftadaeth y Byd
- 2) <https://whc.unesco.org/en/socio-economic-impacts/>

Ffin y Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru



Cynlluniau Lleol

Mae'r adran hon yn adolygu'r ddau gynllun adfywio flaenorol gafodd ei lunio ar gyfer y dref, a'n mapio'r safleoedd allweddol a'r prosiectau a nodwyd.

Cynllun Adfywio Ardal Porthmadog 2007 – 2013

Datblygwyd y Cynllun Adfywio Ardal fel rhan o Strategaeth Adfywio Gwynedd. Mae'n nodi'r brif fesurau a phrosiectau ar gyfer adfywio Porthmadog a'r cyffiniau.

Mae'r themâu canlynol wedi'u nodi fel y prif flaenoriaethau ar gyfer adfywio'r ardal:

- Cynyddu twf a ffyniant economaidd
- Tai ac Unedau Preswyl
- Gwasanaethau Lleol
- Cymunedau Bywiog
- Moderneiddio canol trefi
- Iaith a Diwylliant

Mae gofynion y rhanddeiliaid ar gyfer yr ardal leol i'w weld yn y ffigur isod:

Aelodau'r Gymuned	Grwpiau gwirfoddol a busnesau	Darparwyr gwasanaethau
<ul style="list-style-type: none">• Tai i bobl leol• Mwy o swyddi a swyddi o safon well• Cynnydd yn y gwariant ymwelwyr• Cynnig manwerthu amrywiol	<ul style="list-style-type: none">• Hyrwyddo'r iaith a diwylliant• Ardal yr harbwr• Adeiladau gwag	<ul style="list-style-type: none">• Tai fforddiadwy• Datblygu cyfnewidfa drafndiaeth• Gwneud y gorau o gysylltiadau trafndiaeth

Cynllun Gweithredu Canol Tref Porthmadog 2014 – 2017

Paratowyd y Cynllun Gweithredu gan Bartneriaeth Ganol y Dref, Siambr Fasnach Porthmadog, a Chyngor Gwynedd. Ffurfiwyd Partneriaeth Ganol Tref Porthmadog gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd, i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu a chyflwyno cynlluniau adfywio yn y dref. Dydy'r Siambr Fasnach a Phartneriaeth Ganol y Dref bellach, ddim yn weithredol.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn gosod tair blaenoriaeth ar gyfer y dref ac yn nodi cyfres o brosiectau i wella perfformiad a bywiogrwydd canol y dref:

- Cefnogi dulliau arloesol o adfywio
- Cefnogi busnesau a gwasanaethau i sefydlu, tyfu a ffynnu
- Cynyddu bywiogrwydd canol trefi trwy gynyddu gwariant, yn enwedig y tu allan i dymor prysur yr haf.

Mae'r prosiectau a nodir yn rai thematig sy'n berthnasol yng nghanol y dref gyda llawer o weithgarwch yn canolbwyntio ar leoedd (e.e. creu Fforwm Digwyddiadau), marchnata a hyrwyddo (e.e. gwella arwyddion a dehongli) a gwneud penderfyniadau lleol (e.e. penodi Rheolwr i Ganolfan y dref). Mae prosiectau sydd â ffocws gofodol yn cynnwys datblygu ardal chwarae awyr agored, creu canolfan ddinesig allweddol a chanolfan digwyddiadau, sefydlu pyrth i'r dref, a dod ag adeiladau adfeiliedig yn ôl i ddefnydd – gweler y dudalen nesaf am fap o'r safleoedd allweddol.

Mae'r ymgais i symud oddi wrth yr economi ymwelwyr tymhorol, a'r nod i gynyddu bywiogrwydd y dref drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â datblygu'r cynigion i ymwelwyr, yn sail i'r rhan fwyaf o'r prosiectau.

Mae llawer o'r blaenoriaethau â osodwyd yn y Cynllun Gweithredu yn parhau i fod yn berthnasol, gyda data wedi'i gyflwyno yn yr adran ganlynol yn amlgu'r heriau parhaus o ran adeiladu tai yn y dref ac arallgyfeirio'r economi leol. Mae rhai o nodau'r Cynllun Gweithredu wedi'u cyflawni, er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau gwag ar y stryd fawr wedi'u hailddefnyddio. Fodd bynnag, mae llawer o'r prosiectau sydd â ffocws gofodol clir heb gael eu cyflawni. Gall hyn fod yn gysylltiedig â'r grwpiau lleol sydd heb strwythur addas i yrru newid o fewn y gymuned, o ganlyniad i ddiwedd bartneriaeth Canol y Dref a'r Siambr Fasnach.

Safleoedd Allweddol

Mewn adolygiad o gynlluniau lleol blaenorol Porthmadog (Cynllun Adfywio Ardal 2007 a Chynllun Gweithredu 2014), nodwyd tri safle diffiniedig yng nghanol y dref fel safleoedd cyfle allweddol:


1. Harbwr Porthmadog a Sgwâr Pen Cei
2. Parc y Dref
3. Safle'r Hen Coliseum

Ers y cynlluniau blaenorol, mae Sinema'r Coliseum wedi'i ddimychwel ac mae'r safle'n wag ar hyn o bryd, sydd nawr yn cael ei hystyried gan y Bwrdd Iechyd fel safle posibl ar gyfer canolfan iechyd newydd. Mae Parc y Dref a'r Harbwr yn parhau'n ddigyfnewid. Mae'r cyfleoedd a amlygwyd mewn cynlluniau blaenorol i wella cyfleusterau chwarae, hyrwyddo treftadaeth, a thir cyhoeddus y ddau safle, dal yn berthnasol.

Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar y safleoedd yma, ac yn y Dadansoddiad Opsiynau, mae'n cyflwyno dau safle ychwanegol, sef:

- Maes Parcio DWP
- Cob Crwn

Mae'r pum safle hyn yn cyflwyno cyfleoedd gofodol allweddol i Borthmadog, ac mae gan ymyriadau safle-benodol wedi'u targedu'r potensial i gyflwyno buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol i'r dref.




Canfyddiadau allweddol o'r adolygiad polisi



Mae yna **uchelgais glir ar gyfer newid** ar draws y rhanbarth, gyda chynlluniau ar bob lefel yn nodi'r angen ar gyfer newid. Mae cynlluniau lleol Porthmadog yn dangos uchelgais sylweddol, gan amlgu ystod o gyfleoedd adfywio ffisegol wrth amlinellu'r achos dros newid â ysgogir gan dai, cyflogaeth a threftadaeth.

Mae cynhyrchiant isel, seilwaith digidol a'r marchnadoedd eiddo a thir masnachol yn cael eu nodi'n gyffredinol fel y **rhwystrau allweddol i ddatblygiad economaidd** yng Ngogledd Cymru. Nid yw'r heriau hyn wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws Gogledd Cymru, gyda lleoliadau mwy gwledig yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn aml yn wynebu heriau mwy.



Mae dynodi'r **Harbwr a'r Cob Mawr** fel Safleoedd Treftadaeth y Byd yn gyfle amlwg i weithredu a buddsoddi. Mae cynlluniau lleol yn dangos awydd i wella parth cyhoeddus yng nghanol y dref, a hyrwyddo treftadaeth leol yn well, ac mae dynodiad Safle Treftadaeth y Byd yn darparu fframwaith a chatalydd i ddatblygiad.



Mae cynlluniau a strategaethau sy'n ymdrin â'r economi ymwelwyr yn canolbwyntio ar **dwristiaeth gynaliadwy**, a'n nodi'r angen i reoli allanoldeb cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o dwristiaeth i sicrhau bod cymunedau'n elwa'n llawn.



Mae **gweithio ar y cyd, a gweithio mewn partneriaeth**, yn cael ei nodi'n gyson fel nodwedd allweddol sy'n ysgogi adfywiad economaidd a newid ehangach yn y rhanbarth. Mae partneriaethau wedi'u ffurfio i reoli Safle Treftadaeth y Byd a chyflawni'r Cynllun Strategol ar gyfer yr economi ymwelwyr, sydd wedi bod yn llwyddiannus wrth ysgogi adfywiad mewn trefi eraill yng Ngwynedd.



Ar draws y ddau gynllun lleol ar gyfer Porthmadog (Cynllun Adfywio Ardal 2007 a Chynllun Gweithredu 2014) mae yna gysondeb yn yr heriau a adnabuwyd, y camau gweithredu a'r prosiectau arfaethedig i adfywio'r dref. Mae natur y cyfleoedd lleol, y ffocws ar y nifer fach o safleoedd allweddol (e.e. Harbwr Porthmadog a'r Hen Coliseum) a'r ystod o brosiectau sydd heb eu cyflawni, yn dangos bod **trefniadau llywodraethu lleol** yn hanfodol i ysgogi newid yn y dyfodol.



2

Gwaelodlin y farchnad,
economaidd a
chymdeithasol-economaidd

Y Waelodlin Economaidd

Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o dueddiadau economaidd presennol a hanesyddol, o gymharu ag ystadegau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad ar:

- Dwf poblogaeth a phoblogaeth
- Cyflogaeth
- Sgiliau a Chymwysterau
- Galwedigaethau
- Cyfrifau busnes yn ôl diwydiant a maint
- Swyddi fesul maes, lleoliad cyniferydd a Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA).

Lle'n bosib, mae data wedi'i ddadansoddi ar lefel Ardal Drefol Porthmadog. Fodd bynnag, y data mwyaf diweddar a gyhoeddwyd ar y lefel hon oedd cyfrifiad 2011. Er bod hyn yn osgogi'r gogwydd a achosir gan bandemig Covid-19 yng Nghyfrifiad 2021, rydym wedi ategu'r data gyda chymharydd Gwynedd mwy diweddar. Lle nad oes data lefel Ardal Adeiledig (BUA) Porthmadog ar gael, mae Gwynedd wedi cael ei ddefnyddio o gymharu â chyfartaledd Cymru a'r DU.

Y Waelodlin Economaidd

Poblogaeth a Thwf Poblogaeth

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan dref Porthmadog boblogaeth o 2,574 o drigolion parhaol.

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth ddiweddaraf yn 2021 yn dangos bod gan Wunedd gyfanswm poblogaeth o 117,100. Mae hyn yn cyfrif am 4% o boblogaeth Cymru.

Mae 17% o boblogaeth Gwynedd rhwng 0-15 oed. Mae 63% o'r oedran gweithio (16-64), sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae gan Wunedd boblogaeth uwch na'r cyfartaledd o ran trigolion 65 oed a throsodd (23%).

Yn gyffredinol, mae poblogaeth Gwynedd wedi lleihau 4% yn y cyfnod rhwng 2011-2021. Mae hyn o gymharu â thwf o 1% yng Nghymru a 6% yn y DU. Hefyd bu gostyngiad uwch na'r cyfartaledd o 7% yn y boblogaeth ar gyfer y rhai 0-15 oed a 16-64 oed. Er bod y boblogaeth 16-64 oed wedi cynyddu 8%, mae hyn yn sylweddol is na'r twf o 18% a 20% a welwyd yng Nghymru a'r DU.

Ffynhonnell: Population Estimates, ONS

Poblogaeth fesul oedran % (2021)



Twf yn y boblogaeth fesul oedran % (2011-2021)



Y Waelodlin Economaidd


Cyflogaeth

Yn 2022, roedd 57,700 o drigolion o fewn yr oedran gweithio economaidd yng Ngwynedd. Mae hyn yn cynrychioli 78% o'r boblogaeth oedran gweithio. Mae hyn ychydig yn uwch nag yng Nghymru ond yn unol â chyfartaledd y DU.


Roedd 57,000 o bobl mewn cyflogaeth yng Ngwynedd, sef 77% o'r boblogaeth. Mae hon yn gyfradd cyflogaeth llawer cryfach nag yng Nghymru (73%) ac ychydig yn uwch na'r DU (75%).

Yn ogystal, gyda dim ond 500 o drigolion yn ddi-waith, mae gan Wunedd gyfradd ddiweithdra isel iawn o 1%. Yng Nghymru a'r DU y gyfradd ddiweithdra yw 2% a 3%.

Poblogaeth oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth ac yn weithredol yn economaidd % (2022)



Poblogaeth sydd o fewn yr oedran gweithio sydd yn ddi-waith (2022)



Ffynhonnell: Annual Population Survey, ONS

Y Waelodlin Economaidd


Newid mewn Cyflogaeth

Cynyddodd cyflogaeth yng Ngwynedd 10% o 73,600 i 74,300 yn y cyfnod 2013-2022. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU o 9%, a chynnydd hyd yn oed yn fwy nag yng Nghymru (6%).


Yn 2013, y gyfradd gyflogaeth oedd 71%. Gostyngodd hyn i 69% yn 2015, ac mae wedi cynyddu ers hynny, er gwaethaf gostyngiad mawr i 70% yn ystod pandemig Covid-19. Er i gyfradd cyflogaeth Gwynedd gael ei tharo'n galetach yn ystod y pandemig na'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DU, mae adferiad yr awdurdod lleol wedi bod yn gryf.

Ffynhonnell: Annual Population Survey, ONS

Cyfradd y Boblogaeth % (2013-2022)



Newid mewn Cyflogaeth % (2013-2022)



Y Waelodlin Economaidd


Cyflogaeth yn BUA Porthmadog

Yng Nghyfrifiad 2011, roedd 2,056 o drigolion yn BUA Porthmadog rhwng 16-74 oed. Roedd 69% o'r rhain yn economaidd weithgar.

Roedd cyfanswm o 1,303 o drigolion mewn cyflogaeth, sef 63% o'r boblogaeth oedran gweithio. Mae hyn yn sylweddol is na'r gyfradd cyflogaeth bresennol yng Ngwynedd (sydd ond yn cynnwys 16-64 oed). Roedd 20% o'r gweithwyr yn hunangyflogedig.

Roedd 73 o drigolion yn BUA Porthmadog yn ddi-waith yn 2011, sef 4% o drigolion 16-74 oed.

BUA Porthmadog gweithgaredd economaidd, cyflogaeth a diweithdra (2011)



Y Waelodlin Economaidd


Sgiliau a Chymwysterau

Mae 7% o boblogaeth oedran gweithio Gwynedd heb unrhyw gymwysterau. Mae hyn wedi gostwng o 9% yn 2012 ac mae'n unol â chyfartaleddau Cymru a'r DU.


Mae gan 41% o'r boblogaeth oedran gweithio yng Ngwynedd gymwysterau NVQ4+. Er bod hyn yn is na'r cyfartaledd yn y DU (44%), mae'n uwch nag ar draws Cymru (39%).

Mae Gwynedd wedi gweld cynnydd mawr yn y gyfran o'i phoblogaeth sy'n fedrus iawn. Mae hyn wedi cynyddu o 32% i 41% yn y 10 mlynedd diwethaf.

Cymwysterau NVQ % (2021)



Cymwysterau NVQ yng Ngwynedd Q % (2012 v 2021)



Ffynhonnell: Annual Population Survey, ONS

Y Waelodlin Economaidd


Cymwysterau yn BUA Porthmadog

Yng Nghyfrifiad 2011, nid oedd gan 26% o'r boblogaeth dros 16 oed a oedd yn byw yn BUA Porthmadog unrhyw gymwysterau (645 o drigolion).

Yn ogystal â hyn, dim ond 26% o'r boblogaeth dros 16 oed oedd â chymwysterau lefel 4 ac uwch (652 o drigolion). Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, dim ond 14% o drigolion oedd â gradd neu radd uwch (345 o drigolion).

BUA Porthmadog, lefel uchaf o gymwysterau (2011)



Ffynhonnell: Census, 2011

Y Waelodlin Economaidd

Galwedigaethau


Roedd 10% o drigolion Gwynedd sydd o oedran gweithio ac mewn cyflogaeth yn 2021 yn cael eu cyflogi fel Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion. Mae hyn yn unol â Chymru ond ychydig yn is na chyfartaledd y DU.

Mae canran y bobl o oedran gweithio yng Ngwynedd sy'n cael eu cyflogi mewn galwedigaethau Proffesiynol (20%) yn sylweddol is na'r gyfran a gyflogir ar y lefel hon yn y DU (25%).

Yn gyffredinol, yng Ngwynedd mae 43% o bobl yn cael eu cyflogi ar lefel Cyswllt neu uwch. Mae hyn yn cymharu â 45% yng Nghymru a 50% yn y DU.

Mae gan Wunedd gyfran sylweddol uwch na'r cyfartaledd o'i phoblogaeth mewn galwedigaethau Crefftau Medrus (16% o'i gymharu â 9% yn y DU) a galwedigaethau Gofalu, Hamdden a Gwasanaethau Eraill (14% o'i gymharu â 9% yn y DU).

Cyflogaeth yn ol galwedigaeth % (2021)



Ffynhonnell: Annual Population Survey, ONS

Y Waelodlin Economaidd

Galwedigaethau BUA Porthmadog


Yn ôl Cyfrifiad 2011, o'r holl drigolion arferol dros 16 oed yn BUA Porthmadog, roedd 14% yn cael eu cyflogi fel Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion (188 o drigolion).

Yn gyffredinol, roedd 35% o drigolion BUA Porthmadog yn cael eu cyflogi ar lefel Cyswllt ac uwch.

Yr alwedigaeth fwyaf ar gyfer cyflogaeth oedd galwedigaethau Crefftiau Medrus, gan gyfrif am 16% o'r rhai mewn cyflogaeth (483 o drigolion).

Roedd cyfran fawr o bobl yn BUA Porthmadog yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethau elfennol (14%) yn ystod cyfnod Cyfrifiad 2011.

Cyflogaeth BUA Porthmadog fesul galwedigaeth % (2011)



Y Waelodlin Economaidd

Cyfrif Busnes fesul Diwydiant

Wrth ddadansoddi diwydiannau Gwynedd yn ôl eu cyfrif busnes, mae rhai gwahaniaethau arwyddocaol i ddadansoddiad gan weithwyr.

Yr amlycaf o'r rhain yw mai Amaethyddiaeth sydd â'r nifer fwyaf o fusnesau o gymharu â diwydiannau eraill. Mae 1,255 o fusnesau Amaethyddiaeth yng Ngwynedd, sy'n cyfrif am 19% o'r cyfanswm. Er hyn, amaethyddiaeth ydy'r 9fed mwyaf o ran nifer y gweithwyr o fewn y diwydiant.


Yr ail fwyaf yw Llety a Bwyd (855), Adeiladu (725) a Manwerthu (615).

Er ei bod yn y 5 sector uchaf o ran nifer y busnesau, mae Gwynedd ar ei hôl hi o gymharu â chyfartaledd y DU o 14% ar gyfer busnesau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol.

Mae'r sector gwybodaeth a chyfathrebu yn sylweddol is yng Ngwynedd o gymharu â'r DU.

Ffynhonnell: UK Business Count, Nomis

Cyfrif Busnes fesul Diwydiant (2023)



Y Waelodlin Economaidd

Cyfrif Busnes yn ôl Maint

Mae cyfanswm o 6,590 o fusnesau yng Ngwynedd. Mae 84% o'r rhain yn microfusnesau, 14% yn fach, a 2% yn ganolig. Mae hyn i raddau helaeth yn unol â chyfartaledd Cymru a'r DU. Dim ond 15 o fusnesau mawr sydd yng Ngwynedd, sef dim ond 0.2%.

Mae nifer y busnesau yng Ngwynedd wedi cynyddu o 6,305 yn 2012, sef twf o 5%. Mae hyn o'i gymharu â thwf o 22% yn y DU a thwf o 16% yng Nghymru.


Mae 1,240 o fusnesau micro Amaethyddiaeth yng Ngwynedd. Mae hyn yn cyfrif am 22% o'r holl fusnesau micro a 99% o'r holl fusnesau Amaethyddiaeth. Mae yna hefyd gyfran uchel o fusnesau Adeiladu a Llety a Bwyd.

Y diwydiant mwyaf ar gyfer busnesau bach yng Ngwynedd yw Llety a Bwyd (220 o fusnesau sy'n cynrychioli 25% o'r holl fusnesau bach). Mae yna hefyd gyfran fawr o fusnesau bach lechyd a Manwerthu.


Addysg, lechyd, a Llety a Bwyd sy'n dominyddu busnesau canolig eu maint. Yr unig sector busnes mawr yw Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn.

Ffynhonnell: UK Business Count, Nomis

Cyfrif busnes yn ol nifer o gyflogeion (2023)



Cyfrif busnes yn ol Maint a Diwydiant (2023)



Y Waelodlin Economaidd

Swyddi fesul Sector

Y sector mwyaf yng Ngwynedd yn ôl nifer y gweithwyr yn 2021 oedd iechyd. Roedd y sector hwn yn cyflogi 10,000 o bobl, gan gyfrif am 19% o'r holl weithwyr. Dyma hefyd y sector mwyaf yng Nghymru a Phrydain Fawr, ond mae'r gyfran a gyflogir yng Ngwynedd yn llawer uwch.

Yn 3ydd mae Addysg, gan gyflogi 6,000 o weithwyr (12%). Mae hwn hefyd yn sector mawr yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ond eto, mae'r gyfran a gyflogir yng Ngwynedd yn fwy.


Llety a Gwasanaethau Bwyd a Manwerthu yw'r 2il a'r 4ydd sector cyflogaeth fwyaf yng Ngwynedd (12% a 10%). Mae'r ddau yn gorbwyso'r cyfrannau a gyflogir ar gyfartaledd.

Mae sectorau mawr eraill yn cynnwys Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn, a'r Celfyddydau, Adloniant a Hamdden.

Er ei fod yn dal i fod y 7fed sector mwyaf, mae gan weithgynhyrchu cyfran is o weithwyr nag yng Nghymru. Mae Gwynedd hefyd ar ei hôl hi o'i gymharu â'r cyfartaleddau cyflogaeth yn y sectorau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol, Gweinyddu Busnes, Trafnidiaeth a Storio, ac Ariannol ac Yswiriant.

Mae cyfran uwch na'r cyfartaledd (4%) o weithwyr Gwynedd yn gweithio mewn Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota.

Gweithwyr yn ol sector % (2021)



Ffynhonnell: BRES, 2021

Y Waelodlin Economaidd

Diwydiannau BUA Porthmadog


Yn ôl Cyfrifiad 2011, o'r rhai 16-74 oed yn BUA Porthmadog mewn cyflogaeth wythnos cyn y Cyfrifiad, y diwydiant mwyaf oedd Cyfanwerthu a Manwerthu ac Atgyweirio Cerbydau Modur. Roedd y diwydiant hwn yn cyflogi 241 o bobl, gan gyfrif am 18% o'r holl weithwyr.

Yn ail i hyn oedd Llety a Gweithgareddau Gwasanaeth Bwyd, yn cyflogi 192 o bobl (14%).

Roedd gweddill y 5 uchaf yn lechyd (13%), Adeiladu (9%) ac Addysg (8%). Mae hyn i raddau, yn unol â chfansoddiad y diwydiant heddiw yng Ngwynedd, ar wahân i Adeiladu.

Roedd Celfyddydau, Adloniant a Hamdden hefyd yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn BUA Porthmadog (7%).

Gweithwyr BUA Porthmadog fesul diwydiant (2011)



Y Waelodlin Economaidd

Sectorau fesul Gweithwyr a Chyniferydd Lleoliad (LQ)

Mae'r graff canlynol yn dangos diwydiannau Gwynedd yn ôl twf cyflogaeth a chyniferydd lleoliad. Mae maint pob swigen yn cynrychioli'r nifer o weithwyr.


Mae Celfyddydau ac Adloniant, a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn y segment twf uchel, arbenigedd uchel, sy'n awgrymu mai dyma ddau o ddiwydiannau cryfaf Gwynedd. Fodd bynnag, dim ond y 5ed a'r 8fed diwydiant mwyaf ydyn nhw yn ôl nifer y gweithwyr.

Mae Gwybodaeth a Chyfathrebu, Gweithgynhyrchu a Phroffesiynol a Gwyddonol i gyd yn ddiwydiannau sy'n tyfu, ond dydn nhw ddim yn arbenigol. Maent hefyd yn gymharol fach o ran maint cyflogaeth gyda digon o le i dyfu ymhellach.

Mae amaethyddiaeth yn hynod arbenigol yng Ngwynedd ond heb weld twf yn y diwydiant, fel yn achos Iechyd, sector mwyaf Gwynedd. Mae Llety a Bwyd ac Addysg hefyd yn sectorau mawr ond er eu bod yn arbenigo maent wedi bod yn lleihau o ran maint.

Mae Ariannol ac Yswiriant wedi gweld gostyngiad mawr mewn maint o 61%.

Ffynhonnell: BRES a Regional GVA, ONS



Y Waelodlin Economaidd

Sectorau yn ôl GVA fesul gweithiwr ac LQ


Mae'r graff hwn hefyd yn dangos twf cyflogaeth a chyniferydd lleoliad, ond yn hytrach mae maint y swigen yn cynrychioli GVA fesul gweithiwr. Mae eiddo wedi'i symud i osgoi sgiwio oherwydd ffigurau GVA hynod o uchel.

Gweithgynhyrchu sydd â'r GVA mwyaf fesul gweithiwr yng Ngwynedd ac mae'n sector sy'n tyfu. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i wella arbenigedd. Mae amaethyddiaeth hefyd yn hynod gynhyrchiol, tra hefyd yn meddu ar LQ uchel o 3.1.

Er bod Iechyd ac Addysg yn ddau o ddiwydiannau mwyaf Gwynedd, mae cynhyrchiant yn isel. Mae hyn hefyd yn wir am y sector Llety a Bwyd a Chelfyddyd ac Adloniant.

Mae gan Adeiladu ac Ariannol ac Yswiriant GVA uchel fesul gweithiwr ond ar hyn o bryd maent yn sectorau bach ac yn dirywio yng Ngwynedd.

Cyniferydd Twf a Lleoliad Cyflogaeth Gwynedd, a GVA fesul Gweithiwr



Ffynhonnell: BRES and Regional GVA by Industry, ONS

Oherwydd argaeledd data ar lefel BUA Porthmadog, mae'r dadansoddiad wedi'i seilio ar ddata o Gyfrifiad 2011 a'i gymharu â'r darlun cyfredol cyffredinol yng Ngwynedd. Yn 2011, roedd gan BUA Porthmadog boblogaeth o 2,918. O'r boblogaeth oedran gweithio, roedd 69% yn economaidd weithgar a 63% yn gyflogaion, gyda chyfradd ddiweithdra o 4%.

Ar yr adeg hon, roedd y rhan fwyaf o'r boblogaeth heb unrhyw gymwysterau ffurfiol gyda'r cymwysterau NVQ4+ fel yr uchaf. Mae hyn hefyd yn trosi i'r mathau o alwedigaethau sydd gan drigolion yr ardal. Dim ond 35% oedd yn cael eu cyflogi ar lefel Cyswllt ac uwch, ac roedd nifer fawr o bobl yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethau elfennol. Fodd bynnag, roedd 14% yn Rheolwyr a Chyfarwyddwyr, sy'n gymharol uchel ochr yn ochr â ffigurau diweddar ar gyfer ardal yr awdurdod lleol.

Y sectorau cyflogaeth fwyaf yn BUA Porthmadog oedd Cyfanwerthu a Manwerthu, a Llety a Bwyd sy'n cysylltu â natur dwristiaid y dref. Y sectorau mawr eraill oedd Iechyd, Adeiladu ac Addysg. Celfyddydau ac Adloniant oedd y 6ed sector mwyaf gyda 90 o weithwyr, a Gweithgynhyrchu yn 7fed. Dim ond 15 o drigolion Porthmadog oedd yn cael eu cyflogi yn y sector Amaethyddol.

Gall data mwy diweddar ar gyfer ardal awdurdod lleol Porthmadog, Gwynedd, ddarparu delwedd fwy diweddar ac ehangach o'r ardal ehangach a fydd yn dylanwadu ar drigolion Porthmadog. Mae poblogaeth Gwynedd yn cyfrif am ddim ond 4% o gyfanswm poblogaeth Cymru ac mae wedi bod yn lleihau mewn maint ar gyfer categorïau oedran gweithio ac iau. Mae'r boblogaeth dros 65 oed wedi cynyddu ond ar gyfradd arafach na'r cyfartaledd. Mae gweithgarwch economaidd a chyfraddau cyflogaeth yn uchel ac mae diweithdra yn sylweddol isel. Mae'r ardal hefyd wedi gweld twf o 10% yn nifer y bobl a gyflogir yn y degawd diwethaf.

Mae 41% o bobl Gwynedd wedi derbyn addysg hyd at NVQ4+. Tra bod hyn yn sylweddol uwch nag yn BUA Porthmadog yn 2011 (26%), mae'n is na chyfartaledd y DU. Fodd bynnag, mae Gwynedd wedi gwella'r ganran hon i fyny o 32% yn 2012, felly gellid amcangyfrif bod Porthmadog hefyd wedi gweld peth gwelliant yn y cyfnod hwn.

Mae 10% o drigolion Gwynedd yn Rheolwyr a Chyfarwyddwyr, a 43% yn cael eu cyflogi ar lefel Cyswllt ac uwch. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd o 50% yn y DU, ac yn lle hynny mae gan Wynedd gyfran uchel o bobl yn cael eu cyflogi mewn Crefftau Medrus a galwedigaethau Gofalu a Hamdden.

Mae busnesau micro yn hynod o bwysig yng Ngwynedd. Mae 19% o fusnesau yn fusnesau

Amaeth, gyda bron pob un yn ficro. Mae llawer o fusnesau Llety a Bwyd yn yr ardal hefyd.

Mae yna lawer o ficrofusnesau Adeiladu, a llawer iawn o fusnesau micro a manwerthu bach.

Sector cyflogaeth fwyaf Gwynedd yw'r diwydiant Iechyd, gan gyflogi 19% o'r boblogaeth. Mae gan yr awdurdod lleol rywfaint o arbenigedd yn y diwydiant hwn, gydag LQ o 1.4, ond hwn hefyd yw'r diwydiant mwyaf yng Nghymru a'r DU, ac nid yw cyflogaeth wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota yn hynod arbenigol yng Ngwynedd, gyda LQ o 3.1. Er ei fod ond yn cyfrif am 4% o gyflogaeth, mae'r nifer enfawr o fusnesau a GVA uchel fesul gweithiwr yn gwneud hwn yn ddiwydiant pwysig yng Ngwynedd.

Mae twristiaeth yn sbardun allweddol i economi Porthmadog. Mae gan Wynedd gyfran uchel o weithwyr yn gweithio yn y sector Llety a Bwyd ac mewn Manwerthu ac mae'r maes yn arbenigo yn hyn o'i gymharu â'r DU. Fodd bynnag, bu gostyngiad yn nifer y gweithwyr yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae gan Wynedd sector Celfyddydau, Adloniant a Hamdden arbenigol sy'n tyfu. Ar hyn o bryd mae'n cyflogi 6% o'r boblogaeth ac wedi cynyddu 20% ers 2016. Gallai hwn fod yn faes cyfle posibl i Borthmadog ei harneisio. Roedd hwn eisoes yn gyflogwr mawr ym Mhorthmadog yng Nghyfrifiad 2011.

Y sectorau eraill i weld twf yn y 5 mlynedd diwethaf, ond heb arbenigedd yw Gwybodaeth a Chyfathrebu, Gweithgynhyrchu, a Phroffesiynol a Gwyddonol. Gwybodaeth a Chyfathrebu sydd wedi gweld y twf uchaf mewn cyflogaeth o bob sector, sef 60%. Mae gweithgynhyrchu wedi cael y GVA uchaf fesul gweithiwr yng Ngwynedd (ar wahân i Eiddo) ond mae'r gyfran a gyflogir yn yr awdurdod lleol yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Mae cyfle i wella arbenigedd yn y meysydd twf hyn.

Y sector i weld y gostyngiad mwyaf mewn cyflogaeth yw'r diwydiant Ariannol ac Yswiriant gyda cholled cyflogaeth o 61%, ond mae gan y diwydiant hwn GVA uchel iawn fesul gweithiwr.

At hynny, gyda nifer uchel o fusnesau adeiladu a GVA uchel fesul gweithiwr, gallai fod cyfle i dyfu yn y diwydiant Adeiladu.

Y Waelodlin Economaidd-Gymdeithasol

Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o waelodlin demograffig, gymdeithasol ac amddifadedd Porthmadog. Mae hyn yn cynnwys:

- Maint a chyfansoddiad cartrefi
- Iechyd a lles
- Trosedd
- Enillion
- Amddifadedd

Lle bo ar gael, mae data wedi'i ddadansoddi ar lefel Ardal Adeiledig Porthmadog (BUA). Fodd bynnag, y data mwyaf diweddar a gyhoeddwyd ar y lefel hon oedd Cyfrifiad 2011. Er bod hyn yn osgoi'r gogwydd a achosir gan bandemig Covid-19 yng Nghyfrifiad 2021, rydym wedi ategu'r data gyda chymharydd Gwynedd mwy diweddar. Lle nad oes data lefel BUA Porthmadog ar gael, mae Gwynedd wedi cael ei ddefnyddio o gymharu â chyfartaleddau Cymru a'r DU.

Y Waelodlin Economaidd-Gymdeithasol

Maint a Chyfansoddiad Aelwydydd

Mae 35% o aelwydydd Gwynedd yn aelwydydd 1 person, a 35% yn aelwydydd 2 berson. Mae 14% yn aelwydydd 3 pherson, 11% yn 4 person a 6% yn 5 person.

Mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o aelwydydd 1 person (30%), a chyfran is na'r cyfartaledd o aelwydydd 3 pherson (16%) a 4 person (13%) o gymharu â ffigurau cenedlaethol.


Mae 17% o aelwydydd yn aelwydydd 1 person, 65+ oed. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr o 13%.

Mewn gwerthusiad o'r cynllun, darganfuwyd bod ymateb hynod gadarnhaol gan ddefnyddwyr ar eu profiad ym Mhorthmadog, gyda'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn canmol pa mor brydferth yw'r dref. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo y byddai mwy o leoedd i ymweld gyda'r nos o fudd i'r gymuned leol, yn ogystal â mwy o leoedd ar gyfer adloniant fel sinema a golff mini. Mae hyn yn awgrymu bod tyfu'r economi nos, yn flaenoriaeth i ymwelwyr a thrigolion.

Ymgysylltu a Rhanddeiliaid

Ymweliad safle a chyfweliadau â rhanddeiliaid

Ym mis Hydref 2023 buom yn ymweld â Phorthmadog, gan gyfarfod â swyddogion o adrannau adfywio a thai Cyngor Gwynedd yn ogystal â Chynghorwyr Tref a Chynghorwyr Sir. Yn ystod yr ymweliad safle, bu swyddogion a chynghorwyr ar daith o amgylch safleoedd allweddol yng nghanol y dref gan gynnwys yr Harbwr, y stryd fawr, Y Cob, Y Ganolfan, Maes Parcio DWP a'r Cut. Amlygodd yr ymweliad safle amrywiaeth o safleoedd blaenoriaeth yn ogystal â'r rhwystrau i gyflawni newid.

Digwyddiad Creu Gweledigaeth

Cynhaliwyd Digwyddiad Creu Gweledigaeth ym mis Tachwedd 2023 fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun hwn. Mynychodd cyfanswm o 15 o rhanddeiliaid, yn cynrychioli:

- Cyngor Tref Porthmadog
- Cyngor Gwynedd
- Cymdeithas Tai Adra
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Rheilffordd Ucheldir Cymru
- Menter Môn

Roedd adborth o'r digwyddiad yn pwysleisio'r angen hanfodol am dai fforddiadwy yn yr ardal leol, pwysigrwydd y Gymraeg yn y gymuned, a photensial datblygu safleoedd allweddol (e.e. safle Hen Coliseum). Yn ogystal, cynigiwyd amrywiaeth eang o brosiectau, gan gynnwys rhwydwaith teithio llesol lleol ehangach, prosiectau treftadaeth a diwylliannol newydd, a gwell dehongliad yng nghanol y dref.

Canfyddiadau allweddol

Roedd ymgysylltu ac ymgynghori yn adlewyrchu'r tueddiadau allweddol a nodwyd yn ystod yr adolygiad o ddata gwaelodlin, yn enwedig ynghylch pynciau tai a chyflogaeth. Mae crynodeb o'r canfyddiadau i'w weld yn y golofn gyferbyn:



Codwyd tai fforddiadwy i drigolion lleol yn gyson fel prif flaenoriaeth i drigolion a rhanddeiliaid lleol. Dywedodd Cymdeithas Tai Adra fod gan y dref restr aros o fwy na 350 o bobl am dai cymdeithasol yn y dref.



Er bod llwyddiant yr economi ymwelwyr yn cael ei gydnabod, mae ymgynghoriadau cyhoeddus yn amlygu'r angen am ystod ehangach o gyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig cyflogaeth trwy gydol y flwyddyn.



Mae Porthmadog ymhlith yr 1% uchaf o ardaloedd Cymru o ran cyfran y siaradwyr Cymraeg, ac roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid a thrigolion yn adlewyrchu pwysigrwydd iaith i gymeriad a threftadaeth gyfoes y dref. Mae dynodiad STB yn gyfle amlwg i hyrwyddo treftadaeth ac iaith y dref.



Mae diddordeb mewn datblygu rhwydwaith teithio llesol y dref ac amlygodd rhanddeiliaid lleol lle gellid gwneud gwelliannau i lwybrau presennol (e.e. y Cut) a datblygu lwybrau newydd (e.e. Llyn Bach).



Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol yn aml yn amlygu pwysigrwydd llywodraethu lleol a'r angen am sefydliad lleol â chyfansoddiad i yrru mentrau lleol llai yn eu blaen, megis gwelliannau i ddehongli ar draws y dref.

Dadansoddiad SWOT

Mae'r dadansoddiad SWOT hwn wedi'i lywio gan yr adolygiad manwl o ddata sylfaenol ac adborth gan randdeiliaid a phreswylwyr. Mae'r dadansoddiad SWOT yn grynodedb o'r materion a'r cyfleoedd allweddol.

CRYFDERAU

- Lefel uchel o siaradwyr Cymraeg
- Wedi'i amgylchynu gan ardaloedd tirwedd arbennig a golygfeydd hyfryd o Eryri
- Treftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol unigryw; hunaniaeth leol gref
- Economi leol gref, yn arbenigo mewn twristiaeth heb unrhyw leoedd gwag a referniw lletygarwch cynyddol

Cynnig manwerthu cymharol gryf

- Lefelau isel o amddifadedd

GWENDIDAU

- Ansawdd parth cyhoeddus safleoedd allweddol (e.e. Harbwr a pharc)
- Cyfraddau uchel o ordewdra ymhlith plant ac anweithgarwch oedolion
- Mae lefelau enillion a sgiliau yn is na chyfartaledd y DU
- Economi leol yn canolbwyntio ar dwristiaeth, yn gysylltiedig â'r nifer cyfyngedig o gyfleoedd cyflogaeth o safon gydol y flwyddyn

SWOT

CYFLEOEDD

- Dynodiad Harbwr Porthmadog a'r Cob fel rhan o Safle Treftadaeth y Byd
- Nifer fach o safleoedd tir llwyd yn y dref, a allai fod yn addas ar gyfer tai
- Cynlluniau i ehangu'r rhwydwaith teithio llesol a mentrau i wella iechyd a lles
- Gosod actifadu safleoedd allweddol, yn enwedig y tu allan i'r tymor ymwelwyr brig


BYGYTHIADAU

- Diffyg tai fforddiadwy – dros amser gall prinder cael effaith negyddol ar yr economi leol, gwasanaethau cyhoeddus a'r iaith Gymraeg
 - Capasiti lleol i gyflwyno ymyriadau seiliedig ar le yn y dref, ar ôl i'r Bartneriaeth a'r Siambwr ddod i ben
- Colli pobl ifanc a theuluoedd

Mae gweledigaeth wedi'i datblygu yn seiliedig ar farn ac adborth gan drigolion, rhanddeiliaid ac ymwelwyr, i arwain adfywiad canol tref Porthmadog:

'Tref gyda thirwedd unigryw sy'n gyfoethog mewn bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwydiannol, ddiwylliannol ac ieithyddol o safon fyd-eang – gyda thai fforddiadwy a swyddi o ansawdd uchel i bobl leol ochr yn ochr â chynnig twristiaeth ddilys a chynaliadwy sy'n ymestyn drwy'r flwyddyn.'

Fframwaith y Weledigaeth



Mesurau Llwyddiant

Mae'r mesurau canlynol wedi'u datblygu i helpu asesu a yw pob agwedd ar y weledigaeth yn cael ei chyflawni. Bydd y weledigaeth wedi'i chyflawni os caiff y mesurau canlynol eu cyflawni dros y phum mlynedd nesaf:

- Mwy o dai cymdeithasol a fforddiadwy yn y dref
- Canolfan iechyd newydd
- Mwy o arwynebedd llawr cyflogaeth a chyfleoedd cyflogaeth trwy gydol y flwyddyn i drigolion
- Partneriaeth leol sefydledig a gweithgar sy'n ysgogi adfywiad yn y gymuned
- Bydd y Gymraeg yn parhau mewn sefyllfa gref fel iaith fyw o fewn y gymuned
- Mwy o hyrwyddo a dehongli treftadaeth a diwylliant lleol
- Economi ymwelwyr cryf gyda nifer yr ymwelwyr wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal trwy gydol y flwyddyn
- Rhwydwaith teithio llesol lleol, yn cysylltu trigolion ac ymwelwyr, ac yn lleihau pwysau ar y rhwydwaith ffyrdd



4

Dadansoddi'r Opsiynau

Dadansoddi'r Opsiynau


Yn yr adran hon cyflwynwn rai 'Syniadau Mawr' ar sut y gallai dyfodol Porthmadog edrych, gan ganolbwyntio ar bum safle allweddol yng nghanol y dref ac o'i chwmpas. Ar gyfer rhai safleoedd, mae ystod o opsiynau wedi'u cynnwys yn eu dadansoddiad tra bod eraill yn canolbwyntio ar un opsiwn.

Nid oes yr un o'r opsiynau hyn wedi'u datblygu'n fanwl. Mae'r opsiynau yn yr adran hon yn cael eu cyflwyno fel Cynlluniau cychwynnol, sy'n nodi'r camau gweithredu a argymhellir i ystyried a datblygu'r opsiynau hyn ymhellach a syniadau lefel uchel o ran sut y gallai cyflenwi yn y dyfodol edrych. Mae'r Cynllun Gweithredu, yn yr adran ddilynol, yn troi'r camau gweithredu a argymhellir yn y Dadansoddiad Opsiynau yn strategaeth y gellir ei chyflawni. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ddatblygu gallu lleol i arwain ar rai mentrau a'u cyflawni, rhagor o ymgynghori â'r gymuned a rhanddeiliaid safle-benodol i ystyried opsiynau'n fanwl, a dadansoddiad dichonoldeb a chost fanwl i fwrw ymlaen â rhai opsiynau.

Mae pum safle cyfle wedi'u nodi yng nghanol y dref ar sail ymgynghoriad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, cynlluniau blaenorol ac ymchwil gwreiddiol. Dangosir y safleoedd hyn ar y map gyferbyn:

1. Hen Coliseum
2. Harbwr Porthmadog a Sgwâr Pen Cei
3. Maes Parcio DWP
4. Parc y Dref
5. Cob Crwn

Mae'r Dadansoddiad Opsiynau'n amlinellu'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau allweddol ar bob safle, gan gynnwys sut y gallai ymyriadau safle-benodol gwahanol fanteisio ar y cryfderau a'r cyfleoedd a lliniaru'r bygythiadau a'r gwendidau a nodwyd yn y dadansoddiad SWOT. Mae penodau blaenorol wedi tynnu sylw at ddau fater canolog i Borthmadog sef argaeledd tai fforddiadwy a nifer y swyddi llawn amser gydol y flwyddyn.



Safle'r Hen Coliseum, Y Stryd Fawr

Disgrifiad

Mae Safle Hen Coliseum yn safle tir llwyd ar y Stryd Fawr ac yn cynrychioli un o'r cyfleoedd datblygu cryfaf ym Mhorthmadog. Roedd Sinema'r Coliseum ar y safle gynt, sydd bellach wedi'i ddymchwel. Wedi ei leoli ar y Stryd Fawr, mae'r safle mewn lleoliad canolog ac yn cael ei warchod gan amddiffynfeydd llifogydd; fel rhan o Barth Llifogydd C1, dim ond yn amodol ar brawf cyfiawnhad y gellir datblygu ar y safle.

Cyfle

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd yn cynnal gwerthusiad opsiynau i benderfynu ble y dylid lleoli canolfan iechyd newydd ym Mhorthmadog. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu na all safle Hen Coliseum ddarparu nifer fawr o unedau preswyl yn ogystal â chanolfan iechyd newydd. Felly, mae'r cyfle ar gyfer y safle yn debygol naill ai'n ddatblygiad canolfan iechyd gyda nifer fechan o unedau preswyl neu gynllun preswyl yn unig.

Effaith

Byddai cyflwyno cynllun preswyl neu gynllun gofal iechyd yn dod â manteision cymdeithasol ac economaidd sylweddol i Borthmadog.

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod gan Borthmadog, fel llawer o'r rhanbarth, boblogaeth sy'n heneiddio sy'n arwain at fwy o angen am wasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, mae data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019) yn dangos bod ardaloedd bach sy'n dibynnu ar y dref am wasanaethau, fel Tremadog a Phrenteg, ymhlith yr amddifad yng Nghymru ar gyfer mynediad at wasanaethau cyhoeddus. O'r herwydd, byddai cyfleuster gofal iechyd newydd a modern yn ateb y galw cynyddol ac yn helpu i leddfu'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd yn y rhanbarth.

Mae gan Borthmadog hefyd ddiffyg sylweddol o ran tai fforddiadwy a chymdeithasol, gydag Adra yn adrodd bod mwy na 300 o bobl yn aros am dai cymdeithasol ym Mhorthmadog ar hyn

o bryd. Byddai darparu tai newydd i drigolion lleol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol, gan leihau nifer y bobl sy'n cael eu gorfodi i symud o'r ardal ac atgyfnerthu sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned. Yn ogystal, mae cadw preswylwyr hefyd yn allweddol ar gyfer tyfu economi trwy gydol y flwyddyn, sy'n llai dibynnol ar y tymor brig yn yr haf.

Cyflwyno

Mae Betsi Cadwaladr yn cwblhau gwerthusiad opsiynau, gan gadarnhau a fydd y safle'n cael ei ddatblygu fel canolfan iechyd newydd

Os bydd Betsi Cadwaladr yn penderfynu peidio â datblygu'r safle, dylid rhoi trefniadau mewn lle ar gyfer datblygu tai fforddiadwy neu gymdeithasol ar y safle



Dadansoddi'r Opsiynau

Safle'r Hen Coliseum, Y Stryd Fawr

Delweddau o'r brig i lawr o ddatblygiad ar safle'r Hen Coliseum



Delwedd o dai fforddiadwy Newydd yn Llanberis (Saer Architects)



Harbwr Porthmadog, Stryd Lombard

Disgrifiad

Adeiladwyd Harbwr Porthmadog yn y 1820au gan William Madocks yn dilyn datblygiad Y Cob a ddyfnhaodd Afon Glaslyn. Yn y 1820au yr Harbwr oedd y prif bwynt allforio llechi o chwareli Ffestiniog ac oherwydd y cysylltiad hwn â'r diwydiant llechi, mae'r safle bellach yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd Llechi Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Gerllaw'r safle mae Sgwâr Pen Cei, man cyhoeddus ger y glannau sy'n cynnwys ardal o laswellt ac ardal balmartog ynghyd â nifer fechan o feinciau. Gyferbyn â'r Sgwâr mae Tafarn Pen Cei (tafarn) a gerllaw, ar hyd y glannau, mae'r Amgueddfa Forwrol.

Cyfle

Mae gan y safle potensial sylweddol fel Safle Treftadaeth y Byd dynodedig ac yn fan cyhoeddus ger glannau deniadol, fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'n ddisgrifiad ac ni chaiff ei ddefnyddio'n ddigonol. Ymhlith y camau y gellid eu cymryd mae ymestyn yr Amgueddfa Forwrol gyda seddau awyr agored yn edrych dros y Sgwâr a'r Harbwr, gan gysylltu'r ddau le. Mae cyfleoedd ar gyfer gwelliannau i dir y cyhoedd yn cynnwys gwell llwybrau cerdded a beicio drwy'r Sgwâr ynghyd â dodrefn stryd newydd a gwell, megis meinciau a goleuadau.

Ochr yn ochr â chysylltu'r gofod â'r Amgueddfa Forwrol, mae cyfle i ymgysylltu ag artistiaid lleol trwy osod celf gyhoeddus a byrddau gwybodaeth sy'n hyrwyddo treftadaeth a diwylliant unigryw'r ardal. Yn ogystal, yn ei ffurf bresennol, nid yw'r gofod yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus – mae potensial i sinemâu awyr agored a faniau bwyd dros dro gael eu cynnal yn y gofod hwn i dyfu'r economi gyda'r nos ac yn y nos.

Effaith

Byddai'r cynigion hyn yn helpu i greu gofod ffyniannus sy'n cael ei ddefnyddio drwy gydol y flwyddyn ac sy'n trosoli ei statws unigryw fel STB i ddathlu treftadaeth leol ac ysgogi datblygiad economaidd. Dangosodd canlyniadau ymgynghoriad Helo Port awydd ymhlith trigolion ac ymwelwyr am fwy o weithgareddau cyhoeddus yn y dref, yn enwedig gyda'r nos ac yn ystod y nos.

Mae adborth rhanddeiliaid a phreswylwyr yn ystod ymgynghoriadau cyhoeddus ac ymgysylltu yn rheolaidd wedi dangos awydd am fwy o gydnabyddiaeth a hyrwyddiad o dreftadaeth leol. Bydd integreiddio dehongli a hyrwyddo treftadaeth i'r safle yn cryfhau ymdeimlad o le a hunaniaeth unigryw'r ardal. Yn ogystal, fel y nodwyd eisoes, mae ffactorau cymdeithasol gan gynnwys ansawdd bywyd cyffredinol yn allweddol ar gyfer cadw a denu pobl ifanc a theuluoedd, sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu.

Cyflwyno

Nodi a chyflawni 'enillion cyflym' (prosiectau cost isel y gellir eu cyflawni yn y tymor byr), megis gosod byrddau gwybodaeth newydd (sy'n hyrwyddo treftadaeth a chelf leol, gan gysylltu â WHS) yn unol â chynllun dehongli lleol y Cyngor Tref, gan gyflwyno gwyrddni ychwanegol, adnewyddu dodrefn stryd bresennol, a defnyddio'r gofod ar gyfer tryciau bwyd a digwyddiadau.

Datblygu rhaglen lawn o welliannau i'r parth cyhoeddus, yn seiliedig ar y weledigaeth a'r cynigion a nodir yn y Cynllun hwn, gan gynnwys set lawn o gostau, gweledigaeth ddylunio fanwl ar gyfer y gofod a blaenoriaethu camau gweithredu allweddol.

Comisiynu astudiaeth ddichonoldeb i archwilio'r cyfleoedd i wella cysylltiadau rhwng yr Amgueddfa Forwrol, gan gynnwys seddau cyhoeddus a chanopiâu, prisio a gwerthuso gwahanol opsiynau.

Dadansoddi'r Opsiynau

Porthmadog Harbour, Stryd Lombard

Darlun o Sgwâr Pen Cei yn cynnwys faniau bwyd dros dro, sinema awyr agored a dodrefn stryd gwell



Darlun o gysylltiadau gwell rhwng y Sgwâr a'r Amgueddfa Forwrol, yn cynnwys gwyrddni ychwanegol, byrddau dehongli, a chanopiau ar hyd y glannau



Maes Parcio DWP, Heol Madog Gorllewin

Disgrifiad

Mae maes parcio'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi'i leoli i'r gogledd o ganol y dref ac yn eiddo i'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC), ar wahân i is-orsaf drydan sy'n eiddo i Scottish Power (SP Manweb PLC). Mae'r safle wedi'i amgylchynu gan dai ac mae'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel maes parcio gan staff swyddfeydd AGP gerllaw. Mae adborth gan randdeiliaid lleol yn awgrymu nad yw'r Maes Parcio'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol ar hyn o bryd oherwydd ei bellter o swyddfeydd yr Adran Gwaith a Phensiynau a phatrymau gwaith newidiol. Fel rhan o Barth Llifogydd C1, dim ond yn amodol, ar brawf cyfiawnhad y gellir datblygu ar y safle.

Cyfle

Mae'r maes parcio wedi'i warchod gan amddiffynfeydd llifogydd ac wedi'i leoli o fewn y ffin datblygu, gan ddangos ei fod yn safle datblygu hyfwr. Fodd bynnag, mae'r llain yn gymharol fach, ac mae'r is-orsaf drydan yn lleihau faint o dir sydd ar gael i'w ddatblygu ac yn cynyddu cymhlethdod datblygu'r safle.

Mae DWP Maes Parcio yn un o nifer fach o safleoedd yn y dref gyda photensial ar gyfer datblygiad preswyl. Mae Porthmadog yn wynebu cyfyngiadau datblygu sylweddol oherwydd perygl llifogydd llanw a'i leoliad gwledig. O ganlyniad, ychydig iawn o dir sy'n addas ar gyfer datblygiadau sy'n agored iawn i niwed (e.e. tai a chanolfannau gwasanaethau brys).

Yn y cyd-destun hwn, mae cyfle i ymchwilio i ymarferoldeb datblygu'r safle, er gwaethaf y cymhlethdodau posibl. Byddai datblygiad yn dwysau ei ddefnydd ac mae ganddo'r potensial i sicrhau bod y safle'n diwallu anghenion y gymuned leol yn well, yn enwedig ar gyfer tai fforddiadwy a gofod cyflogaeth.

Effaith

Cafodd y prinder tai fforddiadwy a'r diffyg cyfleoedd cyflogaeth gydol y flwyddyn eu nodi fel y

prif bryderon gan drigolion, yn ystod ymgynghoriad Ardal Ni 2035. Gellir ystyried hyn yn flaenoriaeth gynyddol i'r dref gan fod tueddiadau demograffig yn dangos bod y boblogaeth yn heneiddio ac yn crebachu. Mae gan ddatblygiad tai neu ofod cyflogaeth ar y safle potensial i gadw mwy o drigolion yn yr ardal leol sydd â manteision cymdeithasol ac economaidd sylweddol, gan gynnwys cynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol. Yn ogystal, mae'r cynnydd mewn preswlydd yn allweddol i arallgyfeirio'r economi leol a chynyddu gwariant y tu allan i'r tymor ymwelwyr, gan ddsbarthu gwariant yn fwy cyfartal trwy gydol y flwyddyn.

Cyflwyno

Ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sefydlu a oes diddordeb mewn ailddatblygu'r safle

Ymchwilio i ymarferoldeb datblygu'r safle, gan ystyried y cyfyngiadau datblygu safle-benodol (e.e. is-orsaf drydan) a'r defnyddiau yn y dyfodol, gan gydnabod mai dwy o'r ardaloedd sydd â'r angen mwyaf yn y dref yw gofod tai a chyflogaeth.



Options Analysis

Maes Parcio DWP, Heol Madog Gorllewin

Delweddu o'r brig i lawr o ddatblygiad gyda pharcio ar y safle (amlygwyd)



Delweddu datblygiad newydd ym Mhwillheli (Cymdeithas Tai Adra)



Parc y Dref, Y Stryd Fawr

Disgrifiad

Mae Parc y Dref rhwng Stryd Lombard a'r Stryd Fawr. I'r de o'r parc mae maes parcio talu ac arddangos Heol-y-Parc, maes parcio canolig ei faint gyda 44 o leoedd parcio. Mae'r parc yn eiddo i Gyngor Gwynedd ac yn cynnwys maes chwarae i blant, cwrs golff gwallgof Golff Giamocs, ffynnon restredig Gradd II er cofeb William Madocks, toiledau cyhoeddus, a siop hufen iâ.

Cyfle

Mae'r safle yn ased cymunedol pwysig yng nghanol y dref ac o ganlyniad dylai ymyriadau yn y dyfodol fod yn seiliedig ar anghenion y gymuned. Mae'r parc yn eang ac yn edrych yn dda gyda nifer fawr o feinciau ac ardal chwarae boblogaidd i blant. Mae adborth gan randdeiliaid yn awgrymu bod ystod eang o gyfleoedd ar gyfer gwella mannau gwyrdd y safle, cyfleusterau hamdden a chwarae, a chysylltiadau teithio llesol. Mae cyfleoedd yn cynnwys:

- Gosod ardal chwarae naturiol ac offer campfa awyr agored ochr yn ochr â seddau awyr agored ychwanegol
- Troi ardal o'r parc i ardd gymunedol, gan greu 'tirwedd fwytadwy' sy'n hybu cynhyrchu bwyd lleol a ffyrdd iach o fyw
- Datblygu llwybrau beicio a cherdded newydd ar y cyd rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin a'r Gogledd-De drwy'r parc
- Gwella'r cwrs golff gwallgof presennol gyda mwy o dyllau, cyrsiau newydd sydd wedi'u hadnewyddu, a mwy o blannu ar hyd y ffin
- Sefydlu marchnadoedd ar benwythnos, cyflwyno mwy o weithgarwch i'r dref trwy gydol y blwyddun

Effaith

Mae data yn y waelodlin yn amlygu, er bod ansawdd bywyd ym Mhorthmadog yn uchel iawn, fod yna heriau cysylltiedig â gordewdra ieuencid (sydd gyda'r uchaf yng Nghymru) a lefelau uchel o anweithgarwch ymysg oedolion. Byddai'r cyfleoedd a nodir uchod, yn enwedig gwelliannau i fannau chwarae a llwybrau teithio llesol, yn hyrwyddo ymarfer corff a gweithgareddau yn y dref i blant ac oedolion, trwy ddarparu mwy o gyfleoedd i deithio ar droed neu ar feic a mwy o resymau i ymweld â'r parc ac ymgysylltu. gyda'r amgylchedd lleol.

Yn yr un modd, gan fod gormod o geisiadau am randiroedd presennol y dref, mae gan ardd gymunedol y potensial i alluogi mwy o drigolion i dyfu bwyd, a fyddai yn ei dro yn helpu i wella llesiant a hybu ffyrdd iach a chynaliadwy o fyw. Mae gan welliannau i'r cwrs golff, llwybrau teithio llesol a sefydlu marchnad botensial hefyd i gynyddu gweithgaredd yn y parc a darparu amwynderau ac atyniadau i drigolion y tu allan i'r tymor ymwelwyr brig.

Cyflwyno

Datblygu Strategaeth Tirwedd a Chwarae ar gyfer y parc i helpu i gydlynu a datblygu'r ystod o gyfleoedd a nodwyd yn fanylach, yn enwedig cyfleusterau chwarae newydd, gardd gymunedol, plannu ychwanegol a llwybrau teithio llesol newydd. Mae'r Strategaeth yn creu cyfle i ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid a thrigolion lleol, gan roi cyfle i'r gymuned gymryd mwy o ran, yn ogystal ag ystyried dichonoldeb opsiynau gwahanol.

Ymgysylltu â masnachwyr a busnesau lleol i archwilio diddordeb ac ymarferoldeb sefydlu marchnad ac a fyddai angen cyfleusterau ychwanegol i gynnal marchnad.

Dadansoddi'r Opsiynau

Parc y Dref, Y Stryd Fawr

Darlun o Barc y Dref gyda gardd gymunedol, llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau eraill



Prif gynllun drafft o'r safle yn seiliedig ar y cyfleoedd a nodwyd



Cob Crwn

Disgrifiad

Arglawdd crwn o amgylch Llyn Bach yw Cob Crwn. Mae Cob Crwn wedi'i leoli i'r dwyrain o ganol y dref ac yn ffinio â Maes Parcio Talu ac Arddangos Llyn Bach a Thramffordd Gorseddau (llwybr Rheilffordd Ffestiniog) i'r gorllewin ac Ynys Tywyn a Phont Britannia i'r de. Mae Cob Mawr, arglawdd mwy a llwybr yr A497, wedi'i leoli i'r de o Cob Crwn ac yn ymestyn ar hyd Traeth Mawr (yr aber). Mae Llyn Bach a Cob Crwn yn eiddo i Gyngor Gwynedd ac mae ardal y goedwig ar Ynys Tywyn yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Mae Cob Crwn yn ffurfio dolen 1.5km ar hyd llwybr troed ar hyd y glannau gogleddol a dwyreiniol ac yn mynd trwy goedwig fechan ar Ynys Tywyn. Nid oes llwybr ar hyd y lan orllewinol ac felly i gwblhau'r ddolen mae'r llwybr yn dilyn ymyl Maes Parcio Llyn Bach.

Cyfle

Mae Cob Crwn yn ardal boblogaidd ymhlith trigolion fel lleoliad glan y dŵr hygyrch gyda llwybr troed pwrpasol a golygfeydd trawiadol o Eryri, fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella'r ardal ymhellach. Y prif gyfle a nodwyd gan randdeiliaid yw datblygu llwybr troed newydd ar hyd y lan orllewinol a fyddai'n cwblhau'r ddolen gylchol o amgylch Cob Crwn. Ochr yn ochr â llwybr troed newydd, mae cyfle i adeiladu pierau gyda seddau ar hyd y glannau (a welir ar y dudalen nesaf) ac ychwanegu dehongliad ychwanegol, gan gyfleu arwyddocâd yr ardal i'r diwydiant llechi a'i nodweddion naturiol unigryw.

Effaith

Fel y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â Pharc y Dref, byddai'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer Cob Crwn yn creu mwy o gyfleoedd i drigolion gael mynediad i'r amgylchedd lleol a chymryd rhan mewn ymarfer corff a gweithgareddau. Byddai'r ymyriadau hyn yn cefnogi llesiant trigolion lleol yn ogystal ag annog ymwelwyr i aros yn hirach ym Mhorthmadog, gan gynyddu buddion yr economi ymwelwyr i'r dref.

Cyflwyno

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnig datblygu llwybr a rennir ar y lan orllewinol, gan gwblhau'r ddolen o amgylch Llyn Bach (cyfeirnod Gwyn-Porth-IMU001 ym Map Rhwydwaith Teithio Llesol Gwynedd)

Sicrhau cyllid i ddylunio a datblygu'r llwybr

Archwilio cyfleoedd i gyfuno cronfeydd ariannu i ddarparu pierau, dehongli ychwanegol, a gwelliannau ehangach i'r parth cyhoeddus ar hyd y llwybr ar y lan orllewinol

Map o lwybrau cerdded a beicio arfaethedig ger Cob Crwn ym Map Rhwydwaith Teithio Llesol Gwynedd



Dadansoddi'r Opsiynau

Cob Crwn

Prif gynllun drafft ar gyfer Cob Crwn yn darlunio llwybr a phierau newydd



Golygfa o'r awyr i'r gogledd o Cob Crwn (lan AS)





5

Cynllun Gweithredu

Rhagymadrodd

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r camau nesaf sydd eu hangen i roi'r Cynllun hwn ar waith. Dros y tair tudalen ganlynol, cyflwynir rhestr o gamau gweithredu wedi'u blaenoriaethu, gan ddechrau gyda'r rhai sy'n ymarferol o fewn y 12 mis nesaf. Nodweddir pob cam gweithredu gan flaenoriaeth, amserlen, cost a themâu. Mae'n bosibl y bydd angen ailedrych ar y camau hyn a'u hailflaenoriaethu wrth i ddadansoddiad dichonoldeb ac opsiynau barhau a dylid cynnal adolygiad parhaus o'r rhestr o gamau gweithredu – fe'u cyflwynir yma fel man cychwyn.

Mae blaenoriaeth ac amserlen pob cam gweithredu yn darparu canllaw o ran y drefn y gellir eu cyflawni er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl a datgloi prosiectau mwy.

Blaenoriaethu

Mae camau gweithredu wedi'u blaenoriaethu ar sail ymgynghoriadau cyhoeddus (Ardal Ni a Helo Port), ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, cyd-destun polisi a'r data economaidd, cymdeithasol-economaidd a'r farchnad sylfaenol. Mae'r flaenoriaeth uchaf wedi'i dyrannu i gamau gweithredu sy'n helpu'n uniongyrchol i ddiwallu anghenion tai a chyflogaeth yn uniongyrchol.

Amserlenni

Mae graddfeydd amser yn cyfeirio at y cyfnod y gellir cyflawni prosiectau a chamau gweithredu yn ymarferol:

Byr - 12 mis neu lai

Canolig - 12 i 24 mis

Hir - 2 flynedd neu fwy

Costau

Mae'r costau a gyflwynir yma yn amcangyfrifon lefel uchel cychwynnol sydd wedi'u datblygu yn seiliedig ar drafodaethau gyda rhanddeiliaid a phrosiectau tebyg, maent yn ansicr a gallent newid yn sylweddol, ond maent yn rhoi amcangyfrif cychwynnol dangosol bras.

Isel - £0 i £10,000

Canolig – £10,000 i £50,000

Uchel – £50,000 neu fwy

Themau



Tai fforddiadwy



Cyflogaeth o safon uchel



Yr Iaith Gymraeg



Llywodraethu



Tirwedd hanesyddol ac ardaloedd gwyrdd



Cysylltedd a llesiant lleol



Twristiaeth cynnaliadwy

Prosiect	Disgrifiad	Llinell Amser	Cost	Cyrff Cyfrifol	Blaenori aeth	Y Brif Thema	Themau Cefnogol
Safle'r Hen Coliseum	Cwblhau gwerthusiad opsiynau ar gyfer safle'r Coliseum i sefydlu os dylid adeiladu canolfan iechyd neu dai ar y safle	Byr	Isel	Betsi Cadwaladr, Cyngor Gwynedd a phartneriaid tai	Uchel	Tai fforddiadwy	Yr Iaith Gymraeg
Parc y Dref	Datblygu Strategaeth Tirwedd a Chwarae i wella cyfleusterau hamdden a hyrwyddo treftadaeth a diwylliant lleol. Ymgysylltu â masnachwyr a busnesau lleol i sefydlu diddordeb ac ymarferoldeb cynnal marchnad yn y parc.	Byr	Canolig	Cyngor Gwynedd, Town Council a grwpiau cymuned lleol	Isel i ganolig	Tirweddau hanesyddol a mannau gwyrdd	Twristiaeth Cynnaliadwy a'r Iaith Gymraeg
Treftadaeth leol a llwybrau cerdded	Archwilio cyfleoedd i ddatblygu llwybrau cerdded newydd o fewn ac o amgylch mannau gwyrdd yn yr ardal leol.	Byr	Isel	Cyngor Gwynedd, Y Cyngor Tref, a grwpiau cymunedol lleol (gan gynnwys Rheilffordd yr Ucheldir)	Isel	Tirweddau hanesyddol a mannau gwyrdd	Cysylltedd a llesiant lleol, twristiaeth gynaliadwy, yr iaith Gymraeg
Dehongli yng nghanol y dref	Dehongliad ychwanegol a gwell o dreftadaeth a diwylliant Porthmadog yng nghanol y dref, gan gysylltu â gwaith parhaus i wella arwyddion	Byr	Isel	Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref a grwpiau cymunedol lleol	Canolig	Tirweddau hanesyddol a mannau gwyrdd	Twristiaeth cynnaliadwy a'r iaith Gymraeg
Rheolwr Canol y Dref	Llogi Rheolwr Canol y Dref parhaol i gydlynu rhanddeiliaid lleol a sbarduno mentrau creu lleoedd ac ysgogi lleoedd lleol	Byr-Canolig	Canolig	Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Tref	Uchel	Llywodraethu	
Partneriaeth Canol y Dref	Sefydlu Partneriaeth Canol y Dref a ffurfiwyd o randdeiliaid lleol, i gydlynu a chataleiddio mentrau creu lleoedd yn y dref; yn cael ei arwain gan ac yn gweithio'n agos gyda Rheolwr Canol y Dref	Byr-Canolig	Isel	Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref, Adra, Betsi, busnesau a phartneriaid lleol eraill	Uchel	Llywodraethu	

Action Plan

Prosiect	Disgrifiad	Llinell Amser	Cost	Cyrff Cyfrifol	Blaenori aeth	Y Brif Thema	Themau Cefnogol
Cae synthetig a chyfleusterau chwarae	Paratoi astudiaeth yn gwerthuso opsiynau ar gyfer cae synthetig newydd a chyfleusterau chwarae newydd ym Mhorthmadog.	Byr-Canolig	Isel	Cyngor Gwynedd	Canolig	Tirweddau hanesyddol a mannau gwyrdd	Cysylltedd a llesiant lleol, twristiaeth gynaliadwy
Maes Parcio DWP	Astudiaeth yn asesu dichonoldeb datblygu'r safle ac asesu opsiynau datblygu dichonadwy.	Byr-Canolig	Isel-Canolig	DWP a Chyngor Gwynedd	Canolig	Tai Fforddiadwy	Yr Iaith Gymraeg
Harbwr Porthmadog a Sgwâr Pen Cei	Ysgogi'r gofod gyda 'enillion cyflym' (adnewyddu dodrefn stryd, gwyrddni ychwanegol, tryciau bwyd a digwyddiadau) wrth ddatblygu strategaeth parth cyhoeddus ar gyfer yr ardal sy'n asesu dichonoldeb gwella cysylltiadau â'r Amgueddfa Forwrol.	Canolig	Uchel	Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref a Safle Treftadaeth y Byd	Uchel	Tirweddau hanesyddol a mannau gwyrdd	Cyflogaeth o safon, Cysylltedd a lles lleol, twristiaeth gynaliadwy
Stad Diwydiannol Penamser	Cwblhau'r gwaith o baratoi'r plot gwag i alluogi datblygu arwynebedd llawr busnes newydd, gan fynd i'r afael â'r tangyflenwad hanesyddol yn yr ardal leol.	Canolig	Uchel	Llywodraeth Cymru	Uchel	Cyflogaeth o safon	Yr Iaith Gymraeg
Grant Gwella Eiddo Canol y Dref	Cefnogi busnesau canol tref i wneud cais am y Grant i uwchraddio eu hadeiladau, gan helpu i wella golwg y stryd fawr.	Canolig	Canolig	Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru	Isel	Cyflogaeth o safon	Yr Iaith Gymraeg
Cynllun siopau gwag	Sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer arwyddion finyl i orchuddio unrhyw siopau sy'n dod yn wag, er mwyn cynnal edrychiad a bywiogrwydd y stryd fawr.	Canolig	Isel	Cyngor Gwynedd	Isel	Cysylltedd a llesiant lleol	Cyflogaeth o safon, twristiaeth gynaliadwy

Action Plan

Prosiect	Disgrifiad	Llinell Amser	Cost	Cyrff Cyfrifol	Blaenori aeth	Y Brif Thema	Themau Cefnogol
Rhwydwaith teithio llesol	Llenwi bylchau yn y Rhwydwaith Teithio Llesol lleol i gysylltu ardaloedd preswyl â chanol y dref a safleoedd cyflogaeth ar droed ac ar feic; archwilio cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau beicio ychwanegol yng nghanol y dref.	Canolig	Canolig i uchel	Cyngor Gwynedd a Chyngor y Dref	Canolig	Cysylltedd a llesiant lleol	Cyflogaeth o safon, twristiaeth gynaliadwy
Y Cut	Archwilio cyfleoedd i integreiddio'r 'Y Cut' fel rhan o'r rhwydwaith teithio llesol lleol, gan ffurfioli cswilt presennol rhwng Porthmadog a Thremadog.	Canolig	Canolig	Cyngor Gwynedd a Chyngor y Dref	Canolig	Cysylltedd a llesiant lleol	Cyflogaeth o safon, twristiaeth gynaliadwy
Llyn Bach a Cob Crwn	Datblygu llwybr a phileri newydd a rennir ochr yn ochr i'r gorllewin o Lyn Bach, gan greu cylchdaith lawn o amgylch y llyn, ac integreiddio gwell dehongliad o dreftadaeth leol (yn enwedig Madog).	Canolig	Canolig	Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref a grwpiau cymunedol lleol (gan gynnwys Rheilffordd yr Ucheldir)	Canolig	Tirweddau hanesyddol a manau gwyrdd	Cysylltedd a llesiant lleol, twristiaeth gynaliadwy, yr iaith Gymraeg
Cynnigion Diwylliedig	Gyda chapasiti lleol cynyddol, archwilio cyfleoedd i ddatblygu arlwy ddiwylliannol y dref gan gynnwys datblygu rhaglen o ddiwyddiadau diffiniedig a gweithgar, rhaglen gelf gyhoeddus, ac ehangu'r defnydd o'r Ganolfan.	Canolig i Hir	Canolig i Uchel	Cyngor Tref a grwpiau cymunedol lleol gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd	Canolig	Cysylltedd a llesiant lleol	Y Gymraeg, cyflogaeth o safon, twristiaeth gynaliadwy
Y Siambr Fasnach	Cefnogi busnesau i ffurfio Siambr Fasnach i sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n llawn mewn penderfyniadau lleol a'u bod yn gallu cefnogi'r gwaith o gyflawni mentrau creu lleoedd lleol.	Canolig i Hir	Isel	Cymuned fusnes leol, Cyngor Tref, a Chyngor Gwynedd	Isel	Llywodraethu	
Porth Trafnidiaeth	Gwneud y mwyaf o leoliad y dref fel porth i Eryri a lleihau'r pwysau ar y rhwydwaith ffyrdd trwy gynyddu amllder trenau ar Reilffordd y Cambrian a gwelliannau i Orsaf Porthmadog.	Hir	Uchel	Trafnidiaeth Cymru gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Tref	Canolig	Cysylltedd a llesiant lleol	Cyflogaeth o safon, twristiaeth gynaliadwy



6

Llywodraethu a Dosbarthiad

Llywodraethu a Dosbarthiad

Mae llywodraethu wedi'i nodi gan amrywiaeth o randdeiliaid lleol a rhanbarthol fel y 'cyswllt coll'. Er y bu cryn ddiddordeb yn lleol ac uchelgais ar gyfer newid, nid yw llawer o'r camau gweithredu a'r prosiectau a gynigiwyd mewn cynlluniau blaenorol wedi'u cyflawni.

Mae modelau llywodraethu lleol effeithiol yn cefnogi rhanddeiliaid lleol i gydlynu a chyflwyno mentrau lleol. Dwy fantais allweddol o fabwysiadu model llywodraethu diffiniedig mewn tref yw darparu atebolrwydd drwy ddiffinio a dyrannu cyfrifoldebau ar gyfer ei haelodau a'i phartneriaid, ac, yn ail, darparu endid a all dderbyn cyllid a bod yn berchen ar dir ac asedau eraill a'u prydlesu.

Cadarnhaodd Datganiad Sefyllfa Ganol Trefi 2023 Llywodraeth Cymru fod capasiti lleol yn ystyriaeth bwysig ar gyfer targedu cyllid adfywio a datblygu economaidd, ac yn ffafrio trefi sydd â mwy o gapasiti profedig i gyflawni. O'r herwydd, mae gofyniad polisi clir i hybu gallu ac adeiladu hanes o lwyddiant er mwyn sicrhau arian cyhoeddus ac adnoddau.

Llywodraethiant ym Mhorthmadog

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Tref yn gyfrifol am gynnal a chadw Cae Pawb (rhandiroedd), Bryn Coffa (cofeb rhyfel) a Pharc Bodawen a Chaeau Chwarae ochr yn ochr â rhai hawliau tramwy cyhoeddus yn y dref. Mae'r Cyngor Tref hefyd yn dyrannu cyllid i grwpiau cymunedol, megis Caru Port, a goleuadau ac addurniadau Nadolig.

Mae Siambr Fasnach a Masnach Porthmadog, a ffurfiwyd o fasnachwyr yn y dref, wedi rhoi'r gorau i weithredu - nid oes grŵp busnes ym Mhorthmadog ar hyn o bryd. Nid yw Partneriaeth Ganol Tref Porthmadog, a ffurfiwyd i ddatblygu a chyflawni Cynllun Gweithredu 2014, bellach yn weithredol.

Mae cydnabyddiaeth hirsefydlog o bwysigrwydd llywodraethu ar gyfer cyflawni newid lleol cadarnhaol ym Mhorthmadog. Amlygodd Cynllun Gweithredu 2014 llywodraethu fel thema allweddol a nododd yr angen am Reolwr Canol Tref ac wrth baratoi'r Cynllun hwn, cyfeiriodd rhanddeiliaid at yr angen am fodel llywodraethu lleol newydd. Roedd adborth gan randdeiliaid lleol yn y Digwyddiad Creu Gweledigaeth yn nodi bod model llywodraethu ffurfiol gyda staff cyflogedig yn fodel a ffafrir ar gyfer y dref, gan fod pwysau'r tymor ymwelwyr yn gadael llawer yn methu ag ymrwymo amser drwy'r flwyddyn i fodel llywodraethu gwirfoddol.

Modelau llywodraethu

Mae ystod eang o fodelau llywodraethu ac amrywiadau ar fodelau presennol. Gellir gwahaniaethu modelau yn seiliedig ar rôl y sector cyhoeddus a phreifat, a'u ffurfioldeb, gyda modelau ffurfiol yn gysylltiedig â chyfrifoldebau mwy trwyadl ar gyfer ei aelodau. Crynhoir y prif fodelau isod:

Partneriaeth Tref / Bwrdd Tref – Partneriaeth wirfoddol sy'n cynnwys rhanddeiliaid o'r gymuned leol, sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat. Fel model gwirfoddol mae'r pwyslais yn nodweddiadol yn cael ei roi ar gydlynu gweithgaredd presennol, yn enwedig rhwng gwahanol sefydliadau o fewn y dref, a chryfhau llais rhanddeiliaid lleol.

Siambr Fasnach – Cwmni di-elw a sefydlwyd ac a redir gan fusnesau, gydag aelodau fel arfer yn cyfrannu ffi aelodaeth yn flynyddol. Fel sefydliad sy'n cael ei arwain gan fusnes, mae'r Siambr Fasnach wedi'i dylunio i hyrwyddo barn y gymuned fusnes lleol, lloïo'r llywodraeth am newid, a threfnu gweithgareddau o fewn y gymuned. Mae Siambrau Masnach lai, yn aml yn cael eu rhedeg ar sail wirfoddol heb fawr ddim staff cyflogedig, os o gwbl.

Ardal Gwella Busnes (AGB) – mae AGB hefyd yn gwmnïau dielw a arweinir gan fusnes. Rhaid i fwyafrif o fusnesau yn ôl nifer a gwerth ardrethol bleidleisio i sefydlu AGB mewn pleidlais. Mae AGB yn rhedeg am dymor o 5 mlynedd ac yn codi ardoll flynyddol o tua 1-3% o werth ardrethol (ar ben ardrethi busnes) a ddefnyddir i logi staff llawn amser. Mae AGB yn cael eu ffurfio, ar gyfartaledd, gan o leiaf 300 o fusnesau gydag incwm blynyddol o tua £200,000. Mae AGB yn canolbwyntio ar flaenoriaethau eu haelodau ac yn nodweddiadol yn darparu marchnata a digwyddiadau yn ogystal â glanhau strydoedd a gwelliannau ffisegol i'r stryd fawr.

Llywodraethu a Dosbarthiad

- *Cwmni Adfywio Cymunedol* – Mae cwmni dielw a arweinir gan y gymuned (a ffurfir yn aml fel Cwmni Buddiant Cymunedol neu Gymdeithas Budd Cymunedol) yn gweithio i reoli a gwella ardal. Er eu bod yn aml yn cael eu harwain gan y gymuned, mae rhai hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff sector cyhoeddus a sefydliadau eraill. Fel cwmni (neu gymdeithas) cofrestredig, mae cwmnïau adfywio cymunedol yn aml mewn sefyllfa well, na chyrff gwirfoddol di-gyfansoddiad, i weithredu fel cyrff atebol a denu cyllid i ardal neu gynllun. Yng Ngwynedd, bu sawl cwmni adfywio cymunedol llwyddiannus gan gynnwys Cwmni Bro Ffestiniog a Galeri Caernarfon.
- *Partneriaeth cyhoeddus-preifat* – Partneriaeth ffurfiol rhwng cyrff cyhoeddus a phreifat. Er enghraifft, rhwng Awdurdod Lleol a datblygwyr. Mae'r partneriaethau hyn yn aml yn cael eu sefydlu ar ffurf cwmnïau menter ar y cyd gyda'r unig ddiben o ddatblygu safleoedd penodol neu berthnasoedd cytundebol eraill. Defnyddir y model yn nodweddiadol ar gyfer cyflawni prosiectau adfywio trefol ar raddfa fawr a chynlluniau seilwaith mawr.

Astudiaethau achos

Aberteifi, Ceredigion


- Sefydlwyd Cymdeithas Cynnal a Cefnogi Cefn Gwlad (4CG) yn 2010 i adfywio canol y dref a chefnogi'r gymuned leol.
- Prynodd 4CG ganol tref a'i ddatblygu'n faes parcio, wedi'i ariannu drwy gynnig cyfranddaliadau cymunedol.
- Mae referniw o'r maes parcio'n cael ei fuddsoddi yng nghanol y dref ac mae eiddo a fu'n wag yn flaenorol wedi'u prynu, eu hadnewyddu, a'u hailagor. Mae siop eco, amgueddfa leol a chanolfan gofal dydd wedi agor mewn hen unedau gwag ac mae'r grŵp yn gweithio i agor llety newydd yng nghanol y dref.
- Mae 4CG hefyd wedi datblygu ap tref ac wedi gosod system Wi-Fi cyhoeddus yng nghanol y dref i gynhyrchu dadansoddiadau ymwelwyr, a ddefnyddir gan fusnesau i lywio oriau masnachu a marchnata, ac fel sail tystiolaeth ar gyfer ceisiadau am arian.

Treorci, Rhondda Cynon Taf

- Yn dilyn Siambr Fasnach lwyddiannus a gweithgar, sefydlwyd AGB, o'r enw Caru Treorci, gan fusnesau'r stryd fawr yn 2020.
- Mae Caru Treorci yn cynnwys tua 110 o fusnesau (y mwyafrif helaeth ohonynt yn fusnesau annibynnol) ac yn cynhyrchu tua £27,000 y flwyddyn, sy'n golygu ei fod yn un o'r lleiaf yn y DU. Fel AGB bach, mae Caru Treorci yn canolbwyntio ar drosoli cyllid allanol i ganol y dref (e.e. Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chronfa gymunedol fferm wynt leol) yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid lleol.
- Ers ei sefydlu, mae'r AGB wedi trefnu gŵyl fwyd gyntaf y dref yn ogystal â gorymdeithiau Nadolig a digwyddiadau eraill, gyda'r nod o gynyddu nifer yr ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn.
- Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu cynnwys marchnata fideo a chyfryngau cymdeithasol ar gyfer canol y dref ac mae Caru Treorci wedi partneru â llwyfan *digidol i gyflwyno cynllun teyrngarwch digidol ar gyfer busnesau canol y dref*.

Llywodraethu a Dosbarthiad

Diagram yn cymharu pum model llywodraethu yn seiliedig ar eu ffurfioldeb a'u harweinyddiaeth



Mae tri opsiwn llywodraethu cyflenwol wedi'u nodi ar gyfer Porthmadog, gan gydnabod yr uchelgais lleol ar gyfer newid a heriau capasiti. Er y gellir gweithredu pob un o'r opsiynau llywodraethu yn annibynnol, gyda'i gilydd maent yn ffurfio model llywodraethu cadarn, cynrychioliadol a deinamig gyda photensial cryf i ddenu cyllid a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun hwn.



Partneriaeth Ganol y Dref

Un o ganfyddiadau allweddol y Cynllun hwn yw absenoldeb grŵp â chyfansoddiad lleol sy'n gymwys i wneud cais am arian grant a pherchnogi, prydesu neu reoli asedau yn y dref fel arall – y tu hwnt i'r Cyngor Tref. Ystyrir bod hyn yn allweddol i ddenu cyllid (er enghraifft mae Adra a Chymdeithas Tai Gogledd Cymru yn cynnig grantiau cymunedol i grwpiau lleol gyda chyfrif banc a chyfansoddiad) ac ysgogi newid yng nghanol y dref.

O'r herwydd, un o'r camau cyntaf i gyflawni newid lleol yn llwyddiannus yw sefydlu Partneriaeth Canol Tref, a ffurfiwyd fel cwmni cymunedol (e.e. Cwmni Buddiant Cymunedol, Cymdeithas Budd Cymunedol neu debyg). Byddai Partneriaeth gyfansoddiadol yn dod â rhanddeiliaid cyhoeddus, preifat a chymunedol lleol ynghyd ac yn darparu cyfrwng effeithiol i rhanddeiliaid lleol arwain ar fentrau creu lleoedd lleol a chyfrannu atynt.


Mae'r Cynllun hwn yn gatalydd ar gyfer sefydlu Partneriaeth o'r fath, gyda set glir o safleoedd allweddol a chamau gweithredu a nodir yn y Dadansoddiad Opsiynau a'r Cynllun Gweithredu yn helpu i arwain ffocws cychwynnol y Bartneriaeth. Fodd bynnag, y prif anfantais fyddai'r angen i rhanddeiliaid wirfoddoli amser i redeg y Bartneriaeth a chyfrannu at fentrau lleol, y mae adborth rhanddeiliaid wedi awgrymu nad yw'n ymarferol gydol y flwyddyn. Felly, mae'n debygol y bydd angen cymorth ychwanegol i feithrin gallu a phrofiad yn y tymor agos.



Rheolwr Canol y Dref

Byddai Rheolwr Canol y Dref yn rôl gyflogedig gyda chyfrifoldeb i gydlynu rhanddeiliaid lleol, cysylltu â phartneriaid rhanbarthol ac arwain ar fentrau yn y dref. Fel rôl â thâl, byddai'n cynyddu capasiti lleol yn sylweddol, yn enwedig yn ystod y tymor ymwelwyr, ac yn ei dro byddai hyn yn hwyluso'r gwaith o gyflawni prosiectau a mentrau newydd yng nghanol y dref.

Gallai Rheolwr Canol Tref ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i sefydlu a rhedeg Partneriaeth, ac yn y broses gyflawni prosiectau ar raddfa lai sy'n helpu i dyfu'r hanes o gyflawni'n lleol dros amser. Mae angen cefnogaeth ac arweiniad cymunedol ehangach ac felly nid yw Rheolwr Canol Tref, heb Bartneriaeth, yn debygol o fod yn gynaliadwy yn y tymor hir.



Cyngor Tref Porthmadog

Mae Cynghorau Tref yn cyflawni rôl wahanol i gwmnïau adfywio lleol ac maent yn bwysig ar gyfer cyflawni mentrau lleol, yn enwedig trwy ddarparu fframwaith atebolrwydd cadarn. Fel llawer o Gynghorau Tref a Chymuned eraill ar draws y wlad, nid oes gan Gyngor Tref Porthmadog garfan lawn o aelodau. Byddai cefnogi'r Cyngor Tref i recriwtio aelodau newydd yn ategu sefydlu Rheolwr Partneriaeth a Chanol y Dref, gan helpu i gynyddu capasiti lleol ymhellach.